

Llais Oogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 531 • Mai 2022 • 50c

Diwedd Cyfnod yn y Douglas

Tud 3

Yn y rhifyn hwn:

- Diwrnod agored –
Tud 4
- Cofiwch am
y Carnifal! –
Tud 7
- Codi Arian –
Tud 22



Darlith Goffa Dafydd Orwig 2022

'Ysbrydoliaeth a Chreu'

Ann Catrin Evans
yn trafod ei gwaith celf

Llyfrgell Bethesda

Nos Lun, 13 Mehefin am 7.30yh
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd

Llais Ogwan

Rhif 530

Ebrill 2022

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

Dilwyn Pritchard

(Ffôn 01248 601880)

d.pritchard@btinternet.com

Swyddogion

CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ (Ffôn 600872)

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Lowri Roberts.

Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd

Dewi A. Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,

Gwynedd, LL57 3DT.

01248 602440

dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**

28 Mai os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 16 Mehefin

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT

Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD

YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD

CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Gwasanaeth Bws Newydd

Mae gwasanaeth bws newydd sy'n cysylltu Dyffryn Ogwen â rhyfeddodau Gogledd Cymru.

Rhan o rwydwaith Trawscymru yw'r T10, sy'n rhedeg rhwng Bangor a Chorwen ar hyd yr A5 ac yn galw ym Methesda, Ogwen, Betws, Pentrefoelas, Cerrigydrudion, a phob safle bws ar y ffordd.

Mae'r T10, sy'n rhad ac am ddim i'r henoed, yn mynd drwy Barc Cenedlaethol Eryri bob dwyawr (pob pedair awr ar ddydd Sul) gan gysylltu â rhwydwaith Sherpas Yr Wyddfa yn Betws a Chapel Curig.


Mae'r gwasanaeth, sydd yng ngofal Llew Jones Coaches, yn ddelfrydol i'r rhai sydd ag awydd mentro i'r mynyddoedd, neu gefn gwlad godidog Hiraethog a Sir Conwy – ac mae'n cysylltu gyda rhwydwaith o fysis sy'n mynd dros Gymru gyfan.

Mae'r gwasanaeth yn brydlon ac yn ddibynadwy, a'r dreifwyr yn glen, cymwynasgar, a gwybodus.

Ariannir y T10 tan fis Awst fel blaenbrawf, felly mae gwir angen am i ni gefnogi'r gwasanaeth gwych hwn i sicrhau ei ddyfodol.

Chwedl y Sais, "use it or lose it."

Mae amserlen ar gael ar traveline.cymru, bustimes.org, neu llewjones.com (01248) 640320.



CLWB CYFEILLION

Gwobrau Mai

£30.00 – (174)

Jo M. Oliver, Ffordd Bangor, Bethesda.

£20.00 – (146)

Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.

£10.00 – (91)

Sandra Howell, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.

£5.00 – (128)

Ceri Hughes, Bryn, Llandygai.

Rhoddion i'r Llais

£350.00 Cyngor Cymuned Llandygai.

£400.00 Cyngor Cymuned Bethesda.

£100.00 Cyngor Cymuned Llanllechid.

£20.00

Mrs. Meira Jones, Bron y Waen, Rhiwlas, er cof am ei phriod, Cyril Jones.

£10.00 Annwen Hughes, Bryn Caseg, Bethesda.

£10.00 Llywela O'Brien yn llongyfarch Einir a Gareth Jones, Llandecwyn, ar ddathlu 41 mlynedd o fywyd priodasol ar Ebrill 1af. Priodwyd hwy yng Nghapel Shiloh, Tregarth.

£10.00 Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, Bethesda.

£10.00 Valerie Hanks, Tantreflys, Bethesda.

£15.00 Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.

Diolch yn fawr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar **@Llais_Ogwan**



Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



Diwedd Cyfnod yn y Douglas

Os oeddech chi'n gwyllo Heno ar S4C yn ddiweddar, mae'n bur debyg eich bod wedi gweld eitem am y gwesty unigryw hwn sy'n ein hanrydeddu â'i bresenoldeb ar Stryd Fawr Bethesda. Nid oedd yn bosib ychwaith anwybyddu'r ffaith fod ymweliad y rhaglen wedi gadael cryn argraff ar y gyflwynwraig, Elin Fflur, a nododd fod ei nain a thaid wedi mwynhau eu brechwst priodas yno.

Ydi, mae'r Douglas bellach ar werth, ac mae'r gwesty unigryw sydd wedi 'aros yn ei unfan' a pheidio symud gyda'r oes, yn mynd i weld teulu newydd wrth y llyw. Ond ai prynu'r Douglas fel busnes hyfwrdd fydd y perchnogion newydd, neu a fydd 'na newid go sylweddol yn nefnydd a diben adeilad sydd wedi bod yn un o'r busnesau mwyaf eiconig ym Methesda ers canol y 19eg?

Mae Christine a Gwyn wedi bod wrth y llyw ers pum mlynedd ar hugain, a thair cenhedlaeth o deulu Christine o'u blaenau. Credir fod yr adeilad ei hun wedi'i adeiladu rhwng 1820 ac 1840, er nad oes unrhyw gofnod swyddogol ohono hyd 1855 ar fap arbennig gan Johnson o ardal Pen y Bryn. Dywed Christine mai rhentu'r eiddo gan Stad y Penrhyn wnaeth ei hen nain pan gymerodd yr awennau ym 1913, ac mae hyn yn cadarnhau fod cysylltiad uniongyrchol ag enw'r gwesty â theulu'r Penrhyn, ac yn benodol felly barwn cyntaf y stad, Edward Gordon Douglas-Pennant. Ym 1939, fe brynodd nain a thaid Christine y gwesty gan y stad, ac mae'r amseriad yn cael ei esbonio gan angen Stad y Penrhyn am dalu treth marwolaeth sylweddol yr Arglwydd.

Credir fod y gwesty wedi cael ei adeiladu'n wreiddiol er mwyn manteisio ar gysylltiad rhyngwladol y ffordd i Iwerddon. Gyda threigl y blynyddoedd, lledaedd poblogrwydd ac enw da'r Douglas, a dylid nodi mai fel gwesty'r oedd yn cael ei adnabod. Edward Gordon Douglas, o linach y Penrhyn, oedd y gŵr na




fynnai gael tafarnau ar dir ei etifeddiaeth, ac felly, caewyd pob tafarn oedd yn mynd yn erbyn ei ddaliadu, gan adael y 'gwesty' ar dir diogel.

Ganrif yn ddiweddarach, mae'r gwesty ar werth, a chfle euraidd i rywun gydio mewn busnes sefydlog a darn o hanes, a'i arwain mewn pennod newydd. I Christine a Gwyn, y delfryd fyddai gweld y gwesty'n parhau yn ur un mowld – a diau mai dyna fyddai dymuniad y mwyafrif o drigolion y Dyffryn. Ond fel achos prynu a gwerthu pob adeilad, diwedd y gân yw'r geiniog – neu yn achos y Douglas, y swllt, y croch a'r hanner coron.

[Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Llywelyn Williams a Lowri Williams am yr hawl i ddefnyddio gwybodaeth odd ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen]



**DALIWCH EICH FFÔN CLYFAR
NEU EICH DYFAIS AR Y SGWÂR
I'CH HEBRWNG I'R ETHYGL
LAWN AR HANES Y GWESTY]**



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Humphrey Jones, Llethrau, Caeau Gleision. Bu farw modryb iddo – Pat Porter i bawb – yn sydyn ac yn annisgwyl. Roedd yn wraig i Arnold, sef brawd i ddiweddar dad Humphrey. Anfonwn ein cofion atoch a at y teulu.

Amgueddfa Lechi Llanberis

Roedd rhaglen ar BBC 4 yn ymweld ag amgueddfeydd, ac o Lanberis y daeth y rhaglen gyntaf yn y gyfres. Huw Stephens oedd y cyflwynydd, ac yn ei dywys o amgylch y Gilfach Ddu'r oedd Cadi Iolen. Roedd y cyflwynydd yn amlwg yn rhyfeddu at y lle a Cadi'n egluro'r eitemau oedd yno iddo. Cwmni Da oedd yn gyfrifol am y rhaglen a'r cynhyrhydd oedd Siwan Haf Williams, nawr o Felinheli, ond yn wreiddiol o Rhiwlas. Braff oedd cael dwy o'r pentref yn ymwneud â'r rhaglen ac mae canmol mawr i'r cynhyrchiad yn ei gyfarwydd. Da iawn chi genod!

Rhodd Cymorth Cristnogol

Pan fu farw ei Mam, Mrs Gwenno Evans, yn ddiweddar roedd Nia am i'r rhoddion er cof fynd i Gymorth Cristnogol, elusen oedd yn agos at galon ei Mam. Trosglwyddwyd £1,500 i bartneriaid sydd yn gweithio yn Malawi ac fe fydd y swm yn helpu gyda dulliau newydd o ffermio yn wyneb sychder mawr o ganlyniad i newid hinsawdd. Merched yw mwyafriaf y ffermwyr mewn gwledydd fel Malawi, ac mae rhoi bwyd i'r teulu yn ddyddiol yn her. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â dulliau newydd fel cael hadau gwynnach, garddio tŷ gwydr a dod â dŵr yn nes at gymunedau ar gyfer yfed a dyfrio. Mae Nia yn diolch am y rhoddion hael i



alluogi Cymorth Cristnogol i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Dathlu Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Mai a Derek Jones ar dathlu eu pen-blwydd priodas aur. Bu'r briodas yng nghapel Hermon, Mynydd Llandegai ar Ebrill 1af ac, yn ôl Derek, roedd y bwrlwm ar y ffordd i mewn ond daeth haul ar y fodrwy wrth iddynt ddod allan. Mwynhewch y dathlu!

Croeso Adref

Braff oedd gweld Gareth adref ac yn edrych yn dda. Rydym yn falch o dy weld unwaith eto. Mae sawl un ohonom wedi dy golli'n arw.

Ymdeol

Dymunwn yn dda i Nia Cathryn, Hafod Lon, ar ei hymddeoliad. Bu'n gweithio mewn swyddfa yn Ysbyty Gwynedd am nifer o flynyddoedd.

Diwrnod agored

Yn ddiweddar cynhaliwyd diwrnod agored yn y neuadd i weld y gwelliannau a wnaethpwyd a hefyd i weld a thrafod gyda'r cymdeithasau sy'n cyfarfod yno. Mwynhawyd y bwrlwm a'r trafod, ac i goroni'r cyfan, yr hwyl wrth wneud hetiau Pasg. Cynhaliwd raffl hefyd, a'r enillydd Iwcus oedd Nel Jones Roberts-llongyfarchiadau i ti, Nel!

Hoffem ddiolch i Hefin Williams sy'n ymdeol o'r pwyllgor ers iddo fod yn aelod o'r pwyllgor am nifer o flynyddoedd. Pan nad oedd ond criw bychan ohonom yn gofalu am y Neuadd, os oedd rhywbeth yn mynd o'i le, fe fyddai yn dod atom ac yn ddi-ffwdan yn cywiro'r nam, yn aml ar y boiler a'r gwresogyddion. Diolch o galon i ti Hefin!

Y mae ei mam hefyd wedi cael triniaeth ar ei llygaid, Gobeithio eich bod yn gwella Mair.

Llwyddiant

Ddechrau'r tymor cafodd Gwen Williams, Carreg y Gath, ei dewis i chwarae hoci i dîm merched dan 18 oed Gogledd Cymru, ac erbyn hyn y maent wedi chwarae sawl gêm yn yn erbyn timau o Ogledd Orllewin Lloegr gan ennill pob gêm. Mae Gwen yn chwarae ac yn ymarfer gyda thîm hoci Dinas Bangor. Llongyfarchiadau i ti Gwen, ac mae'n rhaid fod y gamp yn boblogaidd yn y pentref, gan fod nifer o enethod Rhiwlas wedi bod yn aelodau o garfan Ysgol Dyffryn Ogwen a rhai wedi chwarae i dîm Sir Gaernarfon hefyd.

Rhedeg i godi arian

Fore Sadwrn y Pasg roedd Caren Wyn, Bron y Waun, yn rhedeg 5 cilometer yn Llandudno i godi arian at y Gymdeithas Stroc er côf am

Hanes ymfudo o Rhiwlas i Batagonia

Yn ystod mis Ebrill cafwyd sgwrs yn y Neuadd gan Cynrig yn adrodd hanes Senora Dilys Owen de Jones.

Rhieni Dilys, sef Richard Lewis a Margaret Owen oedd berchen y Post yn Rhiwlas ac ym 1911 mudodd y teulu i'r Wladfa. Hwylodd y llong Orita o Lerpwl ac ar ei bwrdd oedd y rhieni a'r plant sef, Dilys (16 oed), Margaret (19 oed), Olivia (13 oed) a Robert (21 oed).

Bu i Richard gael ei ddylanwadu gan hanesion bod aur wedi ei ddarganfod yn y Wladfa ac mae'n debyg ei fod wedi ceisio ei lwc yn yr ardal o gwmpas Tecka. Ni lwyddodd y fenter a bu i'r teulu ymgartrefu yn y Gaiman mewn tŷ o'r enw Plas y Coed.

Erbyn 1927 dim ond Dilys a'i thad oedd ar ôl, a Dilys hithau wedi colli ei gŵr cyntaf

ac yn magu tri o blant bach. Bu i Dilys ail-briodi gan lwyddo i adeiladu busnes pur lewyrchus iddi ei hun ym Mhlas y Coed. Dilys sefydlodd y Tŷ Te Cymreig cyntaf yn y Wladfa ac erbyn heddiw mae nifer ohonynt yn bodoli ac yn denu twristiaid yn eu miloedd i'r Gaiman.

Mae Plas y Coed yn parhau i estyn croeso cynnes i ymwelwyr, i brofi'r danteithion ac fel lle i aros. Mae mewn dwylo da gydag Ana Chiabrande Rees, gor-wyres i Dilys – yn berchen y busnes. Bu'n rhaid i Ana ddysgu Cymraeg ac mae wedi dilyn sawl cwrs ac ymweld â Chymru. Mae'n diwtor Cymraeg i oedolion yn Nhrelew ac yn hyrwyddo'r iaith drwy ei gwaith yn ysgol ddwyieithog yr Hendre, Trelew.



Cynrig a Carys ger Tŷ Te Plas y Coed, Gaiman



ei thad, y diweddar Tom Gwyn Jones. Fe llwyddodd i gwblhau'r her a llwyddodd i godi £465 tuag at y Gymdeithas. Llongyfarchiadau i ti Caren.

Clwb Rhiwen

Me'r Clwb wedi cyfarfod yn y neuadd am y tro cyntaf ers dechrau'r cofid. Braf oedd croesawu pawb yn ôl a hefyd croesawu aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod ar yr 2il a'r 4ydd prynhawn Mercher o'r mis yn y neuadd. Buasem yn falch o groesawu mwy o aelodau newydd. Roedd Ann Williams, Cae Mawr wedi gofalu am y lluniaeth a diolch iddi am hyn. Roeddem yn trafod rhaglen y tymor a chafwyd digon o syniadau.

Capel Pisgah

Oherwydd y difrod a gafwyd ar ôl y stormydd a gawsom yn ddiweddar, nid yw'r capel yn ddiogel i gynnal gwasanaeth ar y Sul.

Bellach mae'r aelodau yn cyfarfod yn yr Ystafell Gymunedol yn y Neuadd a bydd y gwasanaeth boreol am 10 o'r gloch.

- Mai 22 – Parch Richard Gillion
- Mehefin 12 – Hugh Pritchard
- Mehefin 19 – Parch Philip Barnett
- Mehefin 26 – Peter Cutts

Brysiwch Wella

Dymunwn yn dda i Mrs Margaret Jones, Fferm Tan y Weirglodd, sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion atoch.

Y Gog

Yr adeg hon o'r flwyddyn fe fyddwn yn disgwyl am y gog, ac eleni fe ddaeth i Gae Mawr ar yr 20fed o Ebrill. Y mae Richard Nines, Bronydd yn argyhoeddedig nad hon oedd yno y llynedd. Mae'r gog wedi dod, ond ble mae'r gwenoliaid tybed?



Marchnad Ogwen

Er gwaethaf problemau Cofid, cafwyd Marchnad lwyddiannus unwaith eto fis Ebrill. Cynhaliwyd raffl gan aelodau'r farchnad er budd trigolion yr Wcráin. Gwnaeth Karen Aston (Cegin Karen) gacen Basg hyfryd, ac fe'i henillwyd hi gan Gwen Elis. Diolch yn fawr



Karen! Daeth y Stondinwyr â wyau Pasg fel gwobrau raffl a gobeithio fod yr enillwyr wedi mwyhau! Rhoddwyd 2 daleb gan y Clwb Criced a Bowlio – sef cael defnydd o ystafell yn y Clwb. Yr enillwyr oedd Ann Thomas a Myfanwy Harper. Diolch i'r Clwb am eu caredigrwydd. Hoffem ddiolch i stonidin Cowbois am eu cyfraniad o £30 at yr achos hefyd – sef elw o wneud crysau-T Wcráin i Dewi Pws. Codwyd £136 o bunnoedd at yr achos.

Bydd Marchnadoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst yn y Clwb Criced a Bowlio. Does dim sicrwydd y bydd Neuadd Ogwen ar agor ac yn barod i gynnal Marchnad Medi ar hyn o bryd. Cadwch olwg am ein baner ym Mryn Bella a chyferbyn â Tesco.

Edrychwn ymlaen ac eich croesawu ar Fehefin 11eg yn y Clwb Criced a Bowlio.

Mae gwybodeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook.

Calendr Llais Ogwan 2023

Lluniau ar gyfer Calendr 2023 i mewn cyn **31 GORFFENNAF 2022**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda

Cofiwch: nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a chynnwys eich cyferiad a'ch enw
Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2023@outlook.com

Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,

Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Llongyfarchiadau

Hoffwn fel Eglwys Longyfarch Y Parchg Ddr Gareth Lloyd a'r ei benodiad fel Ficer ac Arweinydd Newydd Ardal Weinidogaeth Bro Ogwen. Mae wedi bod yn gweinidogaethu yn Esgobaeth Durham hyd yma, a bydd yn dechrau ar ei weinidogaeth ym Mro Ogwen ddechrau mis Mehefin. Edrychwn ymlaen i groesawu Y Parchg Ddr Gareth Lloyd a'i wraig Mrs. Elizabeth Lloyd in plith yn y dyfodol agos.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Gaynor, Glyn Cottage, Nant y Garth sydd ddim yn dda ei iechyd, ac yn derbyn triniaeth o dan ofal Ysbyty Gwynedd – brysiwch wella. Mae'r un cyfarchion yn cael eu hanfon at David Emlyn a'r teulu, gan nad yw David wedi bod yn dda yn ystod y misoedd diwethaf. Hefyd, estynnwn ein cyfarchion

at Mai a Vic – y ddau wedi ymgartrefu mewn cartrefi preswyl. Cofion cynnes atoch eich dau.

Tê Bach

Bydd eglwys St.Cedol yn cynnal Te Bach ar y prynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch y prynhawn, a bydd y Te Bach nesaf ar y 1af o Fehefin. Mae croeso cynnes i chwi i ymuno â ni am baned a theisen.

Gwasanaethau'r Pasg

Gwener y Groglith – cynhaliwyd Gwasanaeth Tenebrae, sef gwasanaeth o Gysgodion a Thywyllwch wrth droed y Groes, drwy ddarlleniaidau o'r Efengyl, a myfyrdodau gyda cherddoriaeth a gweddi.

Sul y Pasg – cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun Bendigaid i ddatlu'r atgyfodiad o dan ofal Esgob Cynorthwyol Bangor, Y Gwir Barchedig Mary Stallar. Hoffwn ddiolch i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaethau.

Hamper Misol

Ers blwyddyn rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol i godi arian tuag at gynnal yr Eglwys. Enillydd yr Hamper Pasg o wyau pasg ym mis Ebrill oedd Nanw Glyn, gyda'r ail wobwr o wŷ pasg yn mynd i Jimmy Frith.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'u teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, a hefyd i'r aelodau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

Gwasanaethau

Cynhelir Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb - mae croeso cynnes i bawb i ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs yn dilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys cysylltwch â'r Deon Bro, Y Parchedig Ganon Tracy Jones, tracyjones@churchinwales.org.uk neu 01248 361876, a chofiwch fod Nia (warden) 07719918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

Cyfle i Gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol

Mae'r traddodiad eisteddfodol yn rhan unigryw a hynod bwysig o'n hetifeddiaeth ni'r Cymry, ac yn naturiol rydym yn falch y bydd Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron fis Awst eleni yn debycach i'r brifwyl roedden ni'n arfer ei mwynhau cyn y pandemig.

Wrth gwrs, tro'r gogledd fydd croesawu'r Eisteddfod y flwyddyn nesaf, efo cynlluniau ar y gweill ers tro i sicrhau llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Fel sy'n arferol, bydd y sir gyfan yn cyfrannu at osod seiliau ariannol cadarn iddi, felly, efo pwyllgorau lleol yn codi arian ledled Gwynedd, bydd cyfle i holl gymunedau'r sir gyfrannu.

Bydd cyfle i unigolion a chymdeithasau/grwpiau lleol pob cymuned ddangos eu cefnogaeth i'r Eisteddfod Genedlaethol drwy gyfrannu ar y gronfa leol a chynorthwyo efo trefnu a chynnal gwahanol weithgareddau.

Yma yn Nyffryn Ogwen, mae ardaloedd y tri ch yngor cymuned – Bethesda, Llanllechid a Llandygái – yn uno, efo un pwyllgor yn gyfrifol am agor cronfa a threfnu rhaglen o weithgareddau. Eisoes cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf ar 13 Ebrill pryd y codwyd pwyllgor ac ethol swyddogion – Cadeirydd: Ieuan Wyn; Ysgrifennydd: Rhodri Llŷr Evans; Trysoryddion: Neville Hughes a Donna Watts.

Gwahoddir pawb sy'n awyddus i fod ar y pwyllgor neu i gynorthwyo mewn unrhyw fodd i ddod i'r cyfarfod cyhoeddus nesaf a gynhelir yn festri Capel Jerusalem, Bethesda am 7 o'r gloch nos Fercher, 8 Mehefin.

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
Swyddfeydd eraill:
Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 Pwllheli (01758) 703000



Y Clwb Gwau

Adra-Cynefin

Yn ddiweddar, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Bangor a Chanolfan Pontio, bu nifer o drigolion y Dyffryn yn brysur iawn. Cynllun arbrofol diwylliannol a chelfyddydol oedd hwn, blae'r aed â sofffa – ia, sofffa! – o amgylch yr ardal – ac estyn gwahoddiad i unrhyw un i eistedd arni a sgwrsio. Gwaddol y cynllun oedd cyfansoddiadau cerddorol a llenyddol newydd yn cwmpasu profiadau amrywiol garfannau yn ein cymunedau. A'r peth gorau oedd mai'r sêr oedd y bobl eu hunain. Martin Holand o'r Gerlan oedd un o'r cyfarwyddwyr, ac un o'r beirdd preswyl oedd Buddug Roberts o Dregarth. Yn goron ar y cyfan cafwyd noson arbennig iawn yng Nghanolfan Pontio, ble daeth y cyfan yn fyw o flaen ein llygaid. Braff oedd gweld yr Howgets yn disgleirio.



Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar 21ain o Ebrill yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom. Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

Llais Ogwan	£350.00
Ambiwllans Awyr	£200.00
Clwb Criced a Bowlio Bethesda	£250.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandegai	£200.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£100.00
Brownies Nant Ffrancon	£75.00
Ogwen 360	£250.00
Clwb Ieuenctid Mynydd Llandegai	£350.00
Theatr Bara Caws	£100.00

Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned, hoffai'r Cyngor ddiolch i Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd am y gwaith atgyweirio sydd wedi cael ei gwblhau ar y bont fechan rhwng Lôn Las Ogwen a Moelyci. Nodwyd fod y gwaith wedi cael ei gwblhau i safon uchel ac mae'r gwaith nawr yn sicrhau mynediad haws i feiciau, pramiau, cadeiriau olwyn ayyb.

Gyda'r etholiad ar y 5ed o Fai, nodwyd fod rhai o'r Cynghorwyr wedi dewis sefyll i lawr, ac felly yn dilyn yr etholiad bydd gan y Cyngor Cymuned 5 sedd wag – 4 sedd yn Ward St Anns ac 1 sedd yn Ward Llandygai. Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r cynghorwyr am eu holl waith – 'rydym ni fel Cyngor yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith diflino a'r holl amser a roddasant i'r gymuned.

Os oes gennych chi unrhyw ddiddordeb yn y seddi gwag, yna cysylltwch â'r Clerc drwy ebost cyngorllandygai@ogwen.org

Gŵyl Gwenllian

Darlith Gwenllian

Ieuan Wyn

70'r gloch

Clwb Rygbi Bethesda

Mehefin 10fed

£5

Teithiau cerdded

Taith Carnedd Gwenllian - Mehefin 11fed £10 a

Taith Lôn Las Ogwen - Mehefin 12fed am ddim

Gig a gweithdai celf

i w cadarnhau

Cysylltwch â Lowri: lowri@ogwen.org

07395544490



PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP



CARNIFAL BETHESDA

Carnifal ar Fai 21

Dyma'r newyddion a dyddiadau gan bwyllgor y carnifal.

Cystadlaethau a chategorïau ar y dydd

- Beic neu bram wedi ei addurno
- Babi nobl
- Gwisg ffansi dosbarth derbyn ac iau Gwisg ffansi blwyddyn 1 a 2.
- Gwisg ffansi blwyddyn 3 a 4
- Gwisg ffansi blwyddyn 5 a 6.
- Gwisg ffansi ysgol Uwchradd.
- Gwisg ffansi oedolion (16+)
- Gwisg ffansi grwpiau neu gyplau (unrhyw oed)
- Nain ddeniadol, gwisg ffansi
- Taid golygus, gwisg ffansi



Rhai o blant Cwmni drama Crawia mewn gweithdai yn Festri Jerusalem.



Martyn a'r criw ar y sofa



Buddug Roberts yn helpu efo'r cyfansoddi



Y Clwb Gwau

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

EGLWYS SANT TEGAI, LLANDYGAI

Newyddion hirddisgwylledig!

Edrychwn ymlaen yn eiddgar ac yn obeithiol i groesawu Arweinydd Bro i'r ardal, sef Y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd. Mae hyn yn dilyn proses hir o gyfweiliadau yn ystod mis Chwefror. Mae'r Parchedig Ddr. Gareth Lloyd o Esgobaeth Durham yn Gymro Cymraeg, yn wreiddiol o Sir Y Fflint, ac yn briod ag Elizabeth, sydd wedi dysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'r Canon Tracy Jones, ein Deon Bro, yn gofalu am y 6 eglwys ym Mro Ogwen. Hoffwn ddiolch iddi am ei chefnogaeth yn ystod cyfnod heriol. Ei manylion cyswllt yw tracyjones@churchinwales.org.uk a 01248 361 876. Mae hi bob amser yn barod i gysylltu ag aelodau o'n cynulleidfa neu â phlwyfolion eraill.

Clychau'r Pasg

Cawsom y fraint o glywed clychau St Tegai yn dathlu'r Atgyfodiad dros y dyffryn ar bnawn Sul y Pasg. Diolch i'n clochydion am y mawl. Dyma bennill o 1899 gan y bardd Llwydfor sy'n disgrifio'r clychau;

Hen glychau Tegai Sant
Mor swynol yw eu sain,
A thystia pawb o'i blant
Nad oes cyffelyb rhain,
Ysbrydion miloedd ddont
I ddawnsio uwch y nant,
A chlod o hyd a ront
I glychau Tegai Sant.

Diolchiadau am roddion y Pasg 2022

Fel wardeniaid a swyddogion hoffem ddiolch i bawb o'r gynulleidfa sydd wedi parhau i anfon arian casgliad yn selog am 2 flynedd, ac i gefnogwyr ffyddlon eraill o'r pentref ac o'r ardal am roddion Pasg i Gronfa Atgyweiro yr eglwys. Diolch o galon i'n holl gefnogwyr. Wrth gwrs, 'rydym bob amser yn hapus i dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol.

Colled

Trist yw cyhoeddi'r newyddion am farwolaeth Dennis Evans o Fangor. Bydd darllenwyr y Llais, efallai, yn cofio Dennis fel athro Saesneg yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Arferai Dennis ddod atom yn St Tegai fel darllenwr lleyg, a chofiw'n gyda hoffter ei bersonoliaeth siriol a'i bregethau grymus. Da oedd gweld aelodau o Eglwys Llandegai ac eglwysi eraill yn yr angladd yng Nghadeirlan Bangor. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fab Graham sy'n byw ym Methesda.

Dymuniadau Gorau

Ar ôl hir ymaros mae Morwena Bean wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty ar y Wirral ac yn dechrau cerdded yn fwy rhwydd. 'Rydym yn falch o glywed y newyddion da!

Dymuniadau gorau hefyd i Helen Gill, Pat Jones a Liz Jones sydd yn disgwyl neu yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Croeso'n ôl

Mae Ian a Daphne Russell yn ôl yn y pentref am ychydig o amser o'u cartref yn ymyl Caeredin. 'Roedd yn bleser eu gweld yng ngwasanaeth y Groglith yn St Cross. 'Rydym yn gweld eich colli!

Glasiñfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966) mairpenybryn@gmail.com

Capel Bethmacca

Tra'n atgyweirio Capel Bethmacca, sydd eisoes wedi ei werthu, ychydig wythnosau yn ôl daeth y perchnogion ar draws enwau rhai oedd wedi adeiladu y capel wedi eu cerffio ar y distiau yn y nenfwd yn dyddio yn ôl i 1907. Chwarae teg iddynt, fe roddasant eu canfyddiad ar Facebook Pobol Glasiñfryn, a chafodd ei bigo i fyny gan Elizabeth Roberts, gynt o Fro Infryn. Cysylltodd hithau â Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, a oedd yn gyn aelod yng nghapel Bethmacca. Wedi siarad â Joe cefais wybod mai Willie Hughes, Bryn, Waen Wen, oedd un o'r dynion, a oedd yn gefnder i daid Joe. William Arthur Jones oedd y llall, ac 'roedd yntau yn hen daid i Wendy Jones, Rachub. Da o beth nad oedd y distiau wedi cael eu llosgi ac maent yn awr ar eu ffordd i Joe gael eu cadw. Ffestri Bethmacca oedd safle'r capel gwreiddiol, a chafodd ei adeiladu yn 1836; pedair wal a tho oedd i'r adeilad, gyda llawr pridd, a rhaid oedd i'r gynulleidfa ddod â'u stôl eu hunain i eistedd. Yn ôl pob sôn aeth dau o'r Deaconiaid i'r carchar am 30 diwrnod wedi iddynt eu cael yn euog yn y llys ym Mangor o beidio a thalu benthyciadau i adeiladu'r capel yn ôl! Diolch yn fawr i Joe am y wybodaeth ddiddorol yma.

Cylch Glasiñfryn

Cafwyd sgwrs ddifyr ac addysgiadol iawn gan Carol Williams ar 'Garddio Gwanwyn' yng nghyfarfod Ebrill o'r Cylch. Daeth ag amrywiaeth eang

o blanhigion efo hi er mwyn trafod ac esbonio sut y gallant gael eu defnyddio i wneud y gorau o'r ardd yn y Gwanwyn.

Wedi'r sgwrs cafwyd cyfle i brynu'r planhigion a chael cynghorion gan Carol. Disgwylwn weld gerddi lliwgar yn yr ardal y Gwanwyn hwn! Diolchwyd i Carol gan Glenys Morgan.

Mis nesaf edrychwn ymlaen at sgwrs gan Cynrig Hughes ar "Hanes Plas Pentir". Ar 8 Mehefin bydd Jess Jones, Swyddog Treftadaeth Parc Cenedlaethol Eryri yn dod atom i roi sgwrs ar 'Prosiect Y Carneddau'. Croeso cynnes iawn i bawb. Mae'r cyfarfodydd yn dechrau am 2yp.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Dylan a Sharon Parry, Yr Hen Ardd, Caerhun ar enedigaeth merch fach, Begw Jên. Mae Caio a Twm wrth eu bodd wedi cael chwaer fach. Llongyfarchiadau hefyd i Hefin a Nesta Parry, Tŷ Capel, ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

Yn yr Ysbyty

Pob dymuniad da am adferiad buan i Eva Thomas, Sŵn y Coed, yn dilyn triniaeth fawr ar ei choes yn Ysbyty Broadgreen.

Priodas

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elen Griffiths a Baha Alla ar achlysur eu priodas ym Morocco yn ddiweddar. Mae Elen yn bennaeth ysgol yn Marrakesh. Pob hapusrwydd i'r ddau.

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Croeso'n ôl

Gyda dyfodiad y Gwanwyn a'r gwenoliaid, croesawn Wyn Bowen Harries a Gwen yn ôl i 'Gap Coch' ar ei newydd wedd. 'Rydym wedi edrych ymlaen erystalwm iawn iddynt ddod i lawr atom i'r pentref, a dymunwn flynyddoedd o iechyd da a dedwyddwch iddynt yn ein plith.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Arnold ac Amanda, 8 Cae Gwigin, ar ddod yn Nain a Taid unwaith eto. Ar ddechrau mis Ebrill, ganwyd mab bach, Brogan, i'w merch, Kimberley a'i gŵr, Barri. 'Rydw i'n siwr bod Harley, Jac a Fabian wrth eu bodd yn cael brawd bach arall. 'Roedd yn ddrwg gennym glywed dy fod ti, Amanda, yn dal i ddiodef ar ôl y codwm cas gefaist ti'r mis diwethaf. Brysia wella, iti gael mwynhau dy ŵyr bach newydd.

Gwellhad buan

Treuliodd Myfanwy, 68 Bro Emrys, noson yn yr ysbyty yn dilyn triniaeth i'w throed. Mae hi'n cael helynt erystalwm iawn, a'r gobaiht y tro hwn yw bod y meddygon wedi medru datrys y broblem o'r diwedd. Brysia wella, Myf!

Bu Logan, 16 Cae Gwigin, yn Ysbyty Gobowen y mis diwethaf, yn cael triniaeth ar ei glun, ei goes, ei benglin, a'i droed. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo. Mae Logan yn gynefin âg aros mewn gwahanol ysbytai ers ei blentyndod cynnar. Mae o'n hogyn dewr iawn.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Neville Fearnley, Helyg, sydd heb fod yn dda ei iechyd ers rhai misoedd.

Mae aelodau'r Clwb wrthi'n ddygn yn paratoi ar gyfer Rali'r Ffermwyr Ifanc, a gynhelir eleni ar ddydd Sadwrn 28ain o Fai, ar Ffarm Gwythrian, Aberdaron. Mae'r clybiau i gyd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ddylunio hysbyseb i dynnu sylw at y Rali. Mae gwaith trawiadol Clwb Dyffryn Ogwen i'w weld yng nghae'r Inclên, dros y ffordd i Amlogfa Bangor. Bydd hen gystadlu ar bob math o wahanol sgiliau amaethyddol ar y diwrnod, ac adloniant difyr gyda'r nos. Pob hwyl i aelodau'n clwb lleol. Mwynhewch ar ôl saib anorfod o dair blynedd.

Llongyfarchiadau

Mae Alison Jones, 23 Cae Gwigin, wedi cael pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Pob bendith iti, Ali! Rydwi'n siwr dy fod wedi mwynhau dathlu efo'r teulu.

Profedigaeth

Brawychwyd trigolion top y pentre, un ac oll, wrth glywed y newyddion trist bod Harri Eardley, 4 Cae Bach, wedi'n gadael mor ddisymwrth ar ddydd Sadwrn y Pasg. Er iddo fetu â cherdded yn bell erystalwm, yr oedd yn dal i fwynhau cwmni ei ffrindiau hyd y diwedd. Cymeriad gwastad oedd Harri, ac yr oedd y cymdogion i gyd yn hoff ohono. Byddwn yn colli ei gwmni wrth fan y Post ar bnawn dydd Mercher.

Cawsom ffarfelio mewn gwasanaeth hyfryd yn yr Amlogfa ar y 29ain o Ebrill, dan ofal tyner y Parch. Dafydd Coetmor Williams. Estynnwn gydymdeimlad dwys at y teulu yn eu colled.

Ar Ebrill 6ed, yn dawel yn ei gartref, Tanymarian, bu farw Mr. Alexander Sansome. Un o'r Barri ydoedd yn wreiddiol. Yr oedd yn briod annwyl i Caroline ac yn dad i saith o blant.

Gwelem ef yn aml, yng nghwmni ei gi tywys ffyddlon, yn cerdded o waelod y pentref hyd Lôn Ddŵr. Rwy'n 'difaru f'enaid imi beidio â deud mwy na "Sut ydach chi?" wrtho, oherwydd rydw i'n siwr ei fod yn berson diddorol dros ben.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Angladdol Mr. Sansome yn yr Eglwys Formonaidd, Gaerwen, a chafodd ei roi i orffwys ym Mynwent Eglwys St. Cross.

Cydymdeimwn yn ddwys â'i weddw a'r teulu oll yn ei galar.

Eglwys St Cross

Gwasanaethau Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau'r Sul yn parhau yn yr eglwys ddwywaith y mis am 11 o'r gloch: Sul 1af yn y mis - Cymun Bendigaidd; 3ydd Sul yn y mis - Boreol Weddi **Mai 29ain**, 11 o'r gloch - croesawn aelodau eglwysi eraill Ardal Weinidogaethol Bro Ogwen i wasanaeth unedig.

Ficer newydd

'Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ein Ficer newydd, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, a'i wraig Elizabeth. Yn Gymro Cymraeg ac yn frodor o Sir Fflint, fe astudiodd Ffiseg ym Mhrifysgol Caergrawnt cyn hyfforddi fel offeiriad a chael ei ordeinio yn Esgobaeth Durham, lle mae o wedi treulio ei holl weinidogaeth tan rŵan. Bydd Gareth yn cael ei sefydlu a'i drwyddedu am 7 o'r gloch nos Fercher, Mehefin 1af, yn Eglwys Crist, Glanogwen. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni i groesawu Gareth ac Elizabeth.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Dennis Evans, Bangor, ym mis Mawrth yn 86 blwydd oed. Brodor o Wrecsam oedd Dennis, ond fe arhosodd yn ardal Bangor ar

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
22 Mai: Y Gweinidog.
29 Mai: Mr. Dafydd Iwan.
5 Mehefin: Parchg. Alan Spencer, Llanrwst.
12 Mehefin: Y Gweinidog.
19 Mehefin: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.
26 Mehefin: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm Bethlehem

Mae aelodau'r Bwrlwm yn mwynhau mynd allan am ginio! A dyna oedd eu hanes brynhawn lau, 28 Ebrill, pan aethant draw i'r Four Crosses, Porthaethwy. Y cinio a'r cymdeithasu wedi mynd i lawr yn dda gan bawb!

Y Festri

Mae'n dda gweld bod y festri wedi bod yn brysyr yn ddiweddar, gyda chyfarfodydd rheolaidd Bwrlwm Bethlehem a Chlwb Coffi Talybont bob bythefnos. Hefyd, cynhaliwyd Noson Goffi Apêl Ffoaduriaid Wcraïn ar 29 Mawrth, Pwyllogor Gwaith Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon ar 3 Mai a'r Etholiadau Lleol ar 5 Mai. Mae'n hyfryd gweld y festri yn gwasanaethu'r gymuned!

ôl iddo raddio o'r Brifysgol. Gweithiodd fel athro Saesneg yn Ysgol Friars, wedyn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac yna Ysgol David Hughes nes iddo ymddeol. Roedd yn uchel ei barch nid yn unig yn y maes addysg ond hefyd yn yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor: bu'n aelod o Eglwys Dewi Sant, Glanadda, ac yn Ddarllenydd Lleyg yn yr ardal, ac yn swydd honno daeth i Eglwys St Cross yn rheolaidd i bregethu ac arwain gwasanaethau Boreol Weddi. Cofiw'n Dennis fel dyn dymunol a charedig efo gwên a gair da i bawb bob amser, efo synnwyr digrifwch ac yn hapus i gymdeithasu - yn aml fe'i gwelwyd yn un o'r caffis yng nghanol y ddinas efo ffrindiau, yn enwedig ar ôl colli ei wraig, Morag, ym 1999. Cynhaliwyd cynhebrwng Dennis ar Ebrill 25ain yn yr Eglwys Gadeiriol, Bangor; traddodwyd y deyrnged gan ffrind Dennis, Mr John Moss, yntau yn Ddarllenydd Lleyg. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w fab, Gareth, a'r holl deulu.

Arfbais Douglas Arms Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Sul, Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 - 23.00
Sadwrn 15.30 - 23.00

01248 602537



Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

JOHN ROBERTS

Paentiwr



Papurwr
Teisiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

ASTUDIO O ADRA

ADRAN Y GYMRAEG AC
ASTUDIAETHAU CELTAIDD
PRIFYSGOL BANGOR YN
HWYLUSO MYNEDIAD I'W
CHYRSIAU GRADD


Ar 14 Mai ac 1 Mehefin, bydd 'boreau coffi' arbennig i bawb sydd erioed wedi meddwl am astudio gradd prifysgol ond a wftiodd y syniad oherwydd amgylchiadau bywyd. I'r rheiny na allant deithio i Fangor, caiff y sesiynau eu ffrydio ar-lein, ar batrwm darpariaeth newydd graddau Adran y Gymraeg.

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd cyfle i fyfyrwyr newydd ddilyn talp helaeth o'r cyrsiau MA a BA (Cymraeg a Chymraeg Proffesiynol) ar-lein. Mae Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn adeiladu ar brofiadau a enillwyd yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn galluogi myfyrwyr newydd i fanteisio ar y ddarpariaeth heb orfod dilyn amserlen gaeth.

Yn ogystal â'r cymorth ariannol sylweddol sydd ar gael i bob myfyriwr, mae'r Adran hefyd yn cynnig nifer o Ysgoloriaethau Technoleg arbennig, i fyfyrwyr gael prynu cyfarpar at ddibenion dilyn gwersi dros y we.

Yn ôl Dr Aled Llion Jones, pennaeth yr Adran: 'Mae hi'n wych o beth bod y myfyrwyr bron i gyd yn ôl ar y campws erbyn hyn, ac edrychwn ymlaen at groesawu myfyrwyr newydd i Fangor bob mis Medi am ddegawdau i ddod. Serch hynny, rydym yn ymwybodol nad pawb sy'n gallu dod i ddarlithoedd a seminarau 'yn y cnawd'. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd teithio, ac mae gan eraill ddyletswyddau gwaith neu ddyletswyddau gofalu, er enghraifft.

'Dyna pam 'rydym wedi penderfynu cynnig ein cyrsiau MA a BA (Cymraeg a Chymraeg Proffesiynol) ar-lein o fis Medi ymlaen: er mwyn i bobl o bob oedran a chefnidir allu manteisio ar ein darpariaeth mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, yn llawn amser neu'n rhan amser. Hoffem groesawu myfyrwyr sy'n chwilio am her newydd, pobl sy'n meddwl ailafael yn eu



haddysg neu newid cyfeiriad eu gyrfa. Mae'r cwrs BA Cymraeg

Proffesiynol yn arbennig o addas i bobl sy'n awyddus i ennill cymwysterau ychwanegol er mwyn datblygu eu gyrfa.'

Mae'r adran wedi cyflogi darlithydd newydd i gynorthwyo gyda'r datblygiad newydd hwn. Bu Dr Elis Dafydd yn fyfyrwr yn yr adran ei hun, ac mae'n edrych ymlaen at y gwaith sy'n ei wynebu. Eglurodd: 'Yr hyn a'm denodd i i Fangor fel myfyriwr oedd y cyfle i ddilyn cwrs diddorol a oedd yn rhoi trosolwg gyflawn imi o hanes a llenyddiaeth y Gymraeg, a chael fy nysgu gan bobl sy'n arbenigwyr yn eu meysydd. Rwy'n gwybod o brofiad mor ddiddorol yw modiwlau'r adran, a sylfaen mor dda yw'r cwrs ar gyfer y byd gwaith wedyn, felly mae sicrhau y bydd y cyrsiau ar gael ar-lein i fwy o bobl yn gam pwysig a chyffrous iawn. Wrth gwrs, mae penderfynu dilyn cwrs prifysgol yn benderfyniad mawr, a rhan o'm gwaith i yw sicrhau y bydd cefnogaeth drylwyr ar gael i'r myfyrwyr newydd, a sicrhau y byddant yn cael profiad heb ei ail.'

Dewch am banded, ac yna dewch am BA!

Anfonwch unrhyw gwestiynau neu ymholiadau at Dr Elis Dafydd, e.dafydd@bangor.ac.uk

Manylion cyswllt:

Elis Dafydd

e.dafydd@bangor.ac.uk
07557005299

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

DIFYRION DIGIDOL

Deian ap Rhisiart

Cyn y pandemig, buom fel Cymunedau Digidol Cymru yn ymweld â llawer o gartrefi gofal ar hyd a lled y Gogledd yn cynnal sesiynau hel atgofion gan ddangos buddiannau technoleg. Y bwriad oedd defnyddio'r adnoddau digidol sy'n bodoli er mwyn diddanu preswylwyr mewn cartrefi gofal trwy fideo, cerddoriaeth a realiti rhithiol. Er mai cartrefi gofal yr oeddem yn ymweld â hwy, mae'r llawer o'r adnoddau yn berthnasol ac o ddiddordeb i ni gyd. Un o brif amcanion ein rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw defnyddio technoleg i hybu iechyd a llesiant ac mi roedd cynnal y sesiynau hyn yn bleser pur wrth weld ymateb llawer o'r preswylwyr. Yn amlach na pheidio, gwelwyd ymateb cadarnhaol iawn gan bobl yn byw gyda dementia yn enwedig.

O fewn sesiwn arferol, fe ddangoswyd ffilmiau ar sgrin o archif y Sefydliad Ffilm Prydeinig, – dyma archif anferth o bob rhan o Gymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gweithio gyda'r BFI i ddarparu arlwy perthnasol o ffilmiau o Gymru. Y bwriad gyda hyn yw ysgogi pobl i hel atgofion am eu hardal leol, gyda llond gwlad o atgofion yn llifo o blith y preswylwyr. Mae'n werth chwilita yn y 'chwaraewr' am ddim er mwyn gwyllo ffilmiau difyr o'r 1930au, 40au, 1950au a'r 1960au. Un uchafbwynt sydd ar gael i'w wylio yw ffilm Yr Etifeddiaeth a gyfarwyddwyd gan y newyddiadurwr John Roberts Williams, gyda'r ffotograffydd enwog Geoff Charles yn golygu, a'r cyn archdderwydd Cynan yn lleisio'n wych. Mae yna ffilm ddifyr tu hwnt yn rhoi cipolwg ar symud gwartheg o Ynys Enlli i'r tir mawr hefyd! Yr oedd y ffilmiau i gyd yn sbarduno preswylwyr i hel atgofion a llawer o atgofion annisgwyl iawn yn dod i'r fei. <https://player.bfi.org.uk/free>; <https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-yr-etifeddiaeththe-heritage-1949-online>

O fewn sesiwn arferol, defnyddiwyd plattform ffrydio Spotify i gynnal disgo, gan greu rhestr chwarae priodol ar gyfer pobl yn byw gyda dementia. Yn amlwg, fe ddewiswyd clasuron bythol wyrdd i ysbrydoli'r preswylwyr, Yma o Hyd – Dafydd Iwan wrth gwrs, clasuron Meic Stevens, a sawl cân gan Edward H Dafis, heb son am emynau fel Calon Lân a Chwm Rhondda. Roedd hi'n amhosib

peidio cynnwys clasuron o'r byd Eingl-Americanidd chwaith o'r Beatles i Simon and Garfunkel. (<https://www.spotify.com/uk/>) Cofiwch fod posib creu eich rhestr chwarae eich hun ar Spotify.

Wrth iddynt fwynhau archif fideo ar y sgrin a moddion i'r glust a'r meddwl trwy gerddoriaeth, roedd y preswylwyr yn cael cyfle i brofi sbectolau realiti rhithiol prosiect arloesol Atgofion Melys. Y nod pan sefydlwyd Atgofion Melys gan Simon Jones oedd creu cynnwys lleol, Cymreig perthnasol ar gyfer pobl Cymru. Felly, aethpwyd ati i ffilmio llawer o leoliadau o Rhaeadr Ddu, Ganllwyd, Traeth Porthor, Pen Llŷn i dŷ o'r 1980au yn nhai teras Rhyd y Car, Amgueddfa Werin Cymru a Dafydd Iwan yn perfformio ym mhrottest Yes Cymru yng Nghaernarfon. Ac nid ffilmio cyffredin yw hyn ond ffilmio mewn 360°, hynny ydi mae'r camera yn ffilmio pob dim o'ch hamgylch! Wedyn ar ôl ei olygu a'i gynhyrchu, mae'r sbectolau VR yn rhoi'r profiad llawn i chi gan roi'r teimlad o fod mewn lleoliad go iawn! Ac i bobl sy'n methu symud o'r cartref gofal, roedd hyn yn brofiad amhrisiadwy, yn gwneud lles i'r meddwl, ac yn ddihangfa i le braf iawn am ychydig o funudau. Gellir darllen rhagor am Atgofion Melys trwy ymweld â'r wefan <http://atgofion.co.uk/c/> a gellir profi ychydig ar y cynnwys VR ar y sianel (<https://bit.ly/3DRvZv2>)

Roedd y sesiynau yn ennyn ymateb gwych, gyda'r gerddoriaeth yn dod â gwên fawr i wynebaw sawl un. Yn aml, pan ddeuem drwy'r drws, roeddynt yn amheus ohonom, ond ar ôl awr yno, roedd pawb yn cael modd i fyw ac yn gofyn pryd fyddan ni'n dychwelyd!

Yn anffodus, bu'n rhaid dod â'r sesiynau i ben oherwydd y pandemig, ond byddwn yn gobeithio gallu ailgychwyn yn y dyfodol pan fo'r amgylchiadau yn caniatáu a'r haint wedi cilio.

Ond yn y cyfamser, gallwch ddefnyddio'r adnoddau y cyfeiriais atynt i ddifyru'ch hun mewn disgo cerdd trwy'r cenedlaethau, i danio atgofion am eich hardal leol ond hefyd i gael blas ar y cynnwys eang sydd gan Atgofion Melys.

Os ydych chi'n gweithio mewn neu'n rheoli cartref gofal neu'n awyddus i gynnal sesiwn tebyg, gallwn eich rhoi ar ben ffordd a'ch cefnogi i ddefnyddio'r adnoddau hyn, cysylltwch gyda mi: deian.apRhisiart@wales.coop

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd lau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwy ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORIAU AGOR

D. Mercher, lau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Gwobr Dug Caeredin

Bu criw o ddisgyblion yn derbyn arweiniad ar gyfleoedd gwirfoddoli gan Dyffryn Gwyrdd a Partneriaeth Ogwen yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn cyfrannu yn eu cymuned leol.

Gweithdy TGAU

Diolch i gwmni Learning Performance am arwain gweithdy

i baratoi blwyddyn 10 ar gyfer eu harholiadau TGAU. Bu canmoliaeth i'r holl ddisgyblion.

Pontio'r Cenedlaethau

Diolch i griw Pontio'r Cenedlaethau a disgyblion blwyddyn 8 ar eu llwyddiant yn creu Mainc Gyfeillgarwch arbennig ar gyfer trigolion Plas Ogwen. Gallwch weld fideo o'r fainc ar gyfrif trydar @cenedlaethau.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgryn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

© 07743373895 📧 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

✉ sian.gwenllian@senedd.cymru

☎ 01286 672 076

📍 70 Stryd Fawr, Bangor



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Adran Chwaraeon

Cafodd rhai o ddisgyblion yr ysgol gyfle i fynd o amgylch coedwig Niwbwrch gyda beics, – roedd y criw wedi cael diwrnod gwych. Diolch i staff Plas Menai a Byw'n Iach Cymru am y profiad anhygoel a hefyd i Mr Evans am gamu i mewn ar y funud olaf i sicrhau profiad gwerthfawr i'n pobl ifanc.



Bu'r genethod yn cystadlu mewn gêm bêl-rwyd yn ddiweddar yn erbyn Ysgol Bodedern. Sêr y gem oedd Rhiannon Roberts blwyddyn 10 ac Ela Dafydd blwyddyn 11. Gwych genod!

Yn ystod mis Ebrill cafwyd diwrnod llawn hwyl yn cystadlu mewn twrnament criced ar gyfer y merched. Bu'r tîm o dan 15eg yn llwyddiannus mewn dwy gêm gan gyrraedd y gêm derfynol, – roedd yn agos iawn rhwng y ddau dîm ond ail agos oedd Ysgol Dyffryn Ogwen y tro hwn. Daeth y tîm dan 13eg yn drydydd yn eu grŵp. Da iawn chi!



YSGOL BODFEURIG

Pasg

Cafodd pawb lond gwlad o hwyl ar ddechrau'r mis yn paratoi ar gyfer y Pasg. Bu pawb yn brysur yn creu cardiau Pasg, cwis Pasg, helpa wyau Pasg ond, heb os, yr uchafbwynt oedd coginio cacenau Pasg – mmmm blasus iawn!



Bwyd

Thema dosbarth Ogwen y tymor diwethaf oedd 'bwyd'. Fel diweddglu gwych i'r thema bu pawb yn brysur yn eu tro yn coginio bwyd o wledydd gwahanol cyn i bawb gael cyfle i flasgu'r bwydydd – profiad gwych a newydd i rai. Coginwyd ramen o Japan, tortillas o Sbaen, spanakopita spigoglys o Groeg, quesadillas o Mecsico a cyri tatws melys o India. Dyna brofiad gwerthfawr i bawb – diolch Miss Davies a Miss Roberts.



Mynd am dro

Rydym mor ffodus o leoliad yr ysgol ac yn bendant mae angen gwneud y mwyaf ohono. Ar ddechrau'r mis aeth dosbarth Idwal am dro fel rhan o'u gwaith Pasg – roeddent yn edrych am arwyddion o'r gwanwyn. Roedd pawb wedi gwirioni yn gweld llw o flodau, o flagur yn tyfu ac yn bendant y bywyd gwyllt.

Yn hwyrach yn y mis aeth dosbarth Ogwen am dro hefyd. Y tro yma roedd yn rhan o gyflwyniad i'r thema newydd 'Awyr Iach'. Roedd y daith yn ysbrydoliaeth i bawb ac erbyn cyrraedd nôl i'r ysgol roedd pawb yn byrlymu gyda



syniadau am waith, gwersi ac ymweliadau posib. Mae mewnbyn y plant i'r thema yn hollbwysig bob tro felly

edrychwch allan am rai o'r syniadau yn cael eu gwireddu yn ein hanes dros y tymor nesaf!

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653



Llongyfarchiadau

Hoffem longyfarch Anti Catrin sy'n gweithio yn yr ysgol ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddi hi, Kevin a'r teulu!

Dyffryn Gwyrdd

Ar drothwy gwyliau'r Pasg bu dosbarth Ogwen yn brysur yn plannu coed ar dir yr ysgol. Mae hyn yn paratoi ar gyfer datblygiad cyffrous sef cyswllt rhwng yr ysgol â phrosiect 'Dyffryn Gwyrdd'. Fel rhan o'r prosiect bydd aelodau o'r gymuned yn ein cynorthwyo wrth ddatblygu gerddi'r ysgol. Diolch o galon i'r rhai sydd eisoes wedi gwirfoddoli, – rydym yn edrych ymlaen i weld y gerddi yn datblygu dros yr haf.

YSGOLION PEN-Y-BRYN AC ABERCASEG

Caglu Arian at Ffoaduriaid Wcráin Dagrau'r Dioddefwyr

Wrth wyllo bwletin newyddion dyddiol Newsround, fflachiodd lluniau dirdynnol o flaen llygaid disgyblion dosbarth Elidir (blwyddyn 6) o blant, teuluoedd, a henoed o'r Wcráin yn ymlwybro mewn ofn wrth chwilio am heddwch. Yn ddi-os, roedd gweld dagrau'r dioddefwyr, wedi cronni deigr yn ein llygaid ni. Ac yn y fan a'r lle, penderfynwyd bod yn rhaid helpu, a chasglu swm sylweddol er mwyn helpu'r ffoaduriaid truenus hyn.

Ar ôl chwarae gyda sawl syniad sut i gasglu arian, roedd y ddwy ysgol



Diwrnod Di-drydan

Fel ffordd o dathlu diwedd ein themâu Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu a llwyr ddiolch i syniadau gwych y plant cafwyd diwrnod di-drydan yn Ysgol Abercaseg ar ddydd lau olaf y tymor. Yn wir roedd pawb wedi cael hwyl yn adeiladu gyda'r bocsys cardfwrdd, yn peintio, chwarae gemau bwrdd, hen a newydd a hyn i gyd yn y tywyllwch hefyd!

angen penderfynu ar syniad newydd, unigryw, hwyliog a fuasai'n gallu cynnwys pawb, yn blant, rhieni, a staff yr ysgol. A do, mi lwyddodd y plant i ateb y meini prawf uchod. Cytunwyd ar y syniad o gasglu 100,000 munud o ymarfer corff mewn pedair wythnos. Bu pawb yn rhan o'r ymgyrch, o'r meithrin i flwyddyn 6, a bu pawb wrthi'n cyfri eu munudau wrth gerdded i'r ysgol, gwersi ymarfer corff, nofio, beicio, pêl-droed, rygbi a llawer mwy. Bu'r athrawon hyd yn oed yn chwysu chwartaia wrth gerdded llwybrau Dyffryn Ogwen a loncian yng Nghaernarfon! Golygfa anarferol iawn, ond roedd y cyfan at achos teilwng.

Llwyddasom i gasglu swm ANHYGOEL o £2772.15. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd; rydym yn hynod, hynod ddiolchgar. Diolch yn bennaf i'r plant am fod mor frwdfrydig i estyn llaw i helpu, – rydych yn ANHYGOEL.

Tymor Newydd, Thema Newydd

Mae gennym thema newydd y tymor hwn sydd yn canolbwyntio ar ofalu am yr amylchedd a'n cymdogaeth. Pa ffordd well o gychwyn ein thema na thrwy ymweliad gan 'Efan', y car trydan o Bartneriaeth Ogwen. Diolch o galon i chi Huw Davies am ddangos 'Efan' i ni, ac am y sgwrs hynod ddiddorol. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda chi ar brosiectau eraill yn y dyfodol agos.

Pinacl arall i gychwyn ein thema newydd oedd ymweliad gan Gwellian o Gyngor Gwynedd. Dysgasom lawer am bwysigrwydd ailgylchu, ail-ddefnyddio a lleihau ac yn sicr, bydd y sesiynau bywiog a gafodd y dosbarthiadau yn sbardun gwych at gychwyn ar ein gwaith o ofalu am ein cymuned.

Ymweliad PC Owain

Diolch yn fawr i PC Owain am ymweliad hynod bwysig â phlant blwyddyn 1 a 2 yn trafod pwy sydd yn cael rhoi moddion i ni, trafod y gwahanol fathau o foddion a phwysigrwydd cadw moddion o dan glo.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Yn rhifyn Ebrill, holais a allai unrhyw un roi rhagor o wybodaeth i mi am dri 'rhigwm', sef:

- Mae llong Morus Ifas ar y dŵr, ar y dŵr ...
- O, mae Casia wedi boddi ... mewn tŷn sardfins ...
- 'hogia Braichmêl' nad oedd neb yn gallu eu trechu.

Gwaetha'r modd, ni dderbyniais unrhyw ymateb, y tro hwn, ac ni allaf ond byw mewn gobaith y daw rhywun i'r fei i'm goleuo yn y dyfodol agos.

Yn y cyfamser, dw i am newid trywydd am y tro, er nad ydw i am wrthod unrhyw un sy'n awyddus i anfon ataf rigymau eraill sydd heb gael sylw gen i hyd yma.

Taith atgof sydd gen i dan sylw y tro hwn, yn dilyn tro bach a gefais ryw fore ar hyd Stryd Fawr Bethesda. Rhyw fynd hamddenol o dow i dow oedd hi, gan aros am blwch bob hyn a hyn i hel atgofion o ddyddiau fy mhentyndod, f'arddegau, ac wedi hynny hefyd, o ran hynny. Ond does dim rhaid i mi dd'eud wrth lawer o bobl Dyffryn Ogwen heddiw nad ydi petha'r un fath erbyn hyn.

Dowch efo fi am dro o geg Adwy'r Nant i lawr y Stryd Fawr, sydd mor llwm a thloddaidd ei gwedd heddiw o gymharu â sut y bu yn llygaid a chof llawer o genedlaethau'r gorffennol. Roedden nhw'n arfer gweld llw o siopau o bob math ar ddwy ochr y Stryd a lluoedd o'u cydrigolion yn tagu'r palmentydd ar y naill ochr a'r llall, yn enwedig ar y Sadyrnau'n dilyn y 'Setlo Mawr' yn y Chwarel, pan oedd ychydig rhagor o arian nag arfer yn llosgi sawl poded phwrs!

Lle mae siop Tesco heddiw, bydd rhai o'r ardalwyr yn cofio garej Smale a oedd yn byw, yn ôl a glywais, yng Nghiltwillan. Dilynwyd Smale, dw i'n meddwl, gan W. R. Evans a chredaf iddo fo ehangu'r busnes dan enw newydd, sef 'The Douglas Garage'. Mae gen i lun o Freddie Ward yn sefyll wrth ymyl un o'r pypiau petrol a chanddo sigarét yn ei law chwith, o fewn modfeddi at y pwmp. Doedd rheolau caeth a llym ynghylch iechyd a diogelwch ddim yn bod yr adeg honno!

Yna, daeth cwmni petrol Chevron a roddodd ei enw ar y garej betrol cyn i ddau o hogia lleol, Cledwyn Jones a Meirion Jones, redeg y busnes am gyfnod, nes i Meirion druan ein gadael yn gymharol ifanc a sydyn. Ai cwmni C. L. Jones, tybed, a ragflaenodd Tesco ar y safle?

Gyda llaw, mae'r gofeb ar y tŷ dros y ffordd, yn 1 Rhes Douglas, yn ein hatgoffa mai dyma lle magwyd y gantores enwog, Megan Llechid, yn ferch i'r llenor, Robert Parry (Trebor Llechid), ac wrth iddi ennill enwogrwydd yn ei maes, mabwysiadodd yr enw 'proffesiynol', Madam Telini.

Ond draw â ni, ar hyd y palmant ar ochr chwith y ffordd, i gyfeiriad y Douglas Arms Hotel, gan fwrw golwg yr un pryd dros y wal ar ardd y gwesty lle byddai Mrs Marjorie Davies, gwraig Alf Davies y perchennog, yn cynnal ei 'Strawberry Tea' ar bnawn braf bob haf, gyda'r elw at y Gymdeithas er Atal Creulondeb i Blant (yr NSPCC),

Ac wrth edrych tuag at y Douglas y dechreuaf f'ysgrif nesaf, gan gofio am yr adeilad a arferai sefyll gyferbyn, sef Neuadd yr Eglwys (Church House).



Chwaraeon

Mae chwaraeon a ffitrwydd yn bwysig iawn i ni yma yn Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg. Yn wir hoffem longyfarch tîm pêl droed yr ysgol a ddaeth yn ail yn nhwrnamaint yr Urdd a chyrraedd yr 8 olaf yng ngŵyl pêl-droed Ysgolion Gwynedd yn ddiweddar. A'r un llongyfarchiadau i'r tîm rygbi am lwyddo i gyrraedd y ffeinal yng Nghaernarfon. Llwyddodd y tîm merched hefyd i gyrraedd y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth 7-bob ochr yr Urdd yn Nhreborth yn ddiweddar. Gwych!

Pêl-rwyd: Mae Clwb Pêl-rwyd Pen-y-bryn, dan arweiniad Miss Glesni Edwards, yn mynd o nerth i nerth gyda'r disgyblion yn paratoi at gystadleuaeth ddiweddar mis Mehefin!

Rygbi a Chriced: Mae disgyblion Pen-y-bryn yn mwynhau gwersi rygbi a chriced wythnosol gydag Osian a Steve, – mae'r sesiynau hwyliog yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau pwysig a'u paratoi i fod yn chwaraewyr brwdfrydig yn y campau hyn.

Nofio: O ganlyniad i sesiynau wythnosol ychwanegol i ddisgyblion Abercaseg a Pen-y-bryn eleni, mae'r plant wedi llwyddo i wneud cynnydd da yn eu hunan hyder a'u sgiliau yn y pwll. Da iawn chi blant!

Parêd Pasg Abercaseg

Cafwyd diwrnod olaf gwerth chweil a lliwgar dros ben cyn y gwyliau Pasg yn Ysgol Abercaseg. Diolch i BAWB am ymdrech arbennig i wneud hetiau o adnoddau wedi eu hailgylchu ar gyfer ein Parêd Pasg. Braf iawn oedd gweld yr holl blant yn cefnogi ac yn canmol ei gilydd. Hoffai'r ysgol ddiolch i Tesco am y gwobrau.

Lles

Braf iawn oedd cael mynd am ymweliad i'r Llyfrgell gyda Dosbarth Frydylas, Abercaseg ble cafwyd mwynhau gweithdai llesiant celf a cherdd fel rhan o gynllun Gaeaf Llawn Lles.



Ardaloedd

Mae pawb yn edrych ymlaen at foreau Mercher er mwyn cael mynd i ddosbarth arall, ac at athrawes wahanol i gael mwy o brofiadau ar y thema Cymru. Erbyn diwedd y tymor bydd pawb wedi cael creu haka i gyd-fynd gyda Hen Wlad fy Nhadau, arlunio yn arddull Kyffin Williams, gwneud dawnsio gwerin a chwarae gemau buarth Cymraeg, adrodd chwedl yn arddull Pie Corbett a gwyllo amrywiaeth o raglenni teledu Cymraeg. Profiadau gwerth chweil.

Diwrnod Trwynau Coch

Gwalltiau gwirion oedd y thema ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch eleni. Da iawn pawb am liwio ac addurno eu gwalltiau mewn steiliau 'gwalltgo' a chodi arian at yr elusen.

Byw'n lach

Mae disgyblion B14 yn brysur yn gweithio ar wella lefel eu ffitrwydd. Bob wythnos, am gyfnod o 15 wythnos, bydd Magi a Bev o Byw'n lach yn dod i'r ysgol i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau addysg gorfforol a'r gobaiht yw bydd ffitrwydd pawb wedi gwella erbyn diwedd y cyfnod.



Mae'r gwanwyn wedi dod...!

Mae bysedd gwyrdd plant y ddwy ysgol wedi bod wrthi'n ddygn yn paratoi gerddi er mwyn ceisio cael ychydig o liw a chynnyrch erbyn yr haf! Diolch i Meic y Garddwr a Phartneriaeth Ogwen am roi help llaw i ni!



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Dathlu

Anfonwn ein cofion a'n llongyfarchiadau at Alwenna ac Alan Puw 'Arlechwedd' Penybryn ar achlysur dathlu pen-blwydd priodas ddeiamwnt, sef chwedeg o flynyddoedd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu.

Diolchiadau

Dymuna Heulwen Roberts 'Ystradawel' Ffordd Bangor ddiolch o galon i bawb am y cyfarchion, cardiau, anrhegion ynghyd â rhoddion o £625 tuag at Diabetes Cymru a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn mis Ebrill.

Gobeithio dy fod wedi mwynhau y dathlu Heulwen.

Hen Nain

Llongyfarchiadau i Mrs. Olive Williams, Maes y Garnedd, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain am y tro cyntaf – i Milli Mair, merch fach i'w hwyres, Anna Mair a Dave yn Llanfairfechan.

Diolch

Drwy gyfrwng y Llais hoffa Mary Jones (Mary Eds) Erw Las ddiolch i bawb am y dymuniadau da, cyfarchion, cardiau ac

anrhegion a dderbyniodd wrth iddi gyrraedd oed yr addewid. Cafwyd noson hwyliog yn Y Siôr wedi i Dewi drefnu bod Traedmoch Môn yn diddanu gan godi hwyliau pawb wedi dwy flynedd o ddistawrwydd. Braff cael dathlu a chydganu a chymdeithasu. Diolch yn arbennig i gymdogion sydd wedi bod mor arbennig dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i ddwy a ddathlodd eu pen-blwydd yn 70 mlwydd oed yn ystod mis Ebrill. Heulwen Roberts, Ffordd Bangor ar y 12fed o'r mis, a Mary Jones, Erw Las, ar y 30ain. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!

Pen-blwydd hapus i Hannah Morgan, Park Villa, Lôn Newydd. Bydd Hannah yn dathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed ar 24ain Mai.

Diolch

Dymuna Mrs. Olive Williams, Maes y Garnedd, ddiolch yn fawr i aelodau'r teulu a chyfeillion am eu cyfarchion caredig ar yr achlysur o ddod yn hen nain i Milli Mair. Diolch o galon.

Ysbyty

Cofion cynnes at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref ac yn gwella. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais:-

Gwenda Prince, Maes y Garnedd; Margaret Parry, Maes y Garnedd; Helen Jones, Rhos Elfed; Karen Aston, Erw Las; Rhian Roberts,

Rhes Buddug; Marion Roberts, Carneddi; Mary Owen, Maes Coetmor; Gareth Jones, Pantglas.

Marwolaethau

Barry Jeffreys

Yn Ysbyty Gwynedd ar 6 Ebrill, bu farw Mr. Barry Jeffreys, Abercseg yn 70 mlwydd oed. 'Roedd yn fab i'r diweddar Percy a Gwyneth Jeffreys, ac yn frawd ac ewythr hoffus. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Bangor ar ddydd Mercher, 20 Ebrill. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

Emma Frances Jones

Ar 2 Ebrill, yn sydyn yn ei chartref yn Llawr y Nant, bu farw Emma Frances Jones yn 50 mlwydd oed. Roedd yn fam annwyl i Siôn, leuan a Robin, yn ferch hoffus i Sandra, yn chwaer i Sara a Paul, ac yn nain falch i Llywelyn. Yn Amlogfa Bangor y cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Iau, 22 Ebrill. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich colled fawr.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Hannah ac Andrew, Allt Penybryn, ar enedigaeth Theo, brawd bach i Noah.

Llongyfarchiadau hefyd i Andre a Sylvia Lomozik, Rhos y Coed ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

Damwain

Anfonwn ein cofion at Karen Aston, Erw Las wedi iddi syrthio ac anafu ei choes. Bu'n rhaid iddi dreulio rhai dyddiau yn yr ysbyty. Gobeithio dy fod yn gwella bellach Karen.

• CANOLFAN CEFNFAES •

Bore Coffi

Sadwrn,
25 Mehefin 2022
10.00 – 12.00



Mynediad: £1

Elw at Gynnal Eglwys Crist Glanogwen

★ CLWB CRICED A BOWLIO ★

NOSON BINGO

Nos Wener, 17 Mehefin
7 o'r gloch

19

24



Elw i Gronfa Apêl
Eglwys Crist Glanogwen

Eglwys Crist, Glanogwen

Newyddion Da!

Wedi hir ymaros, daw ficer newydd i'r Fro, sef y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, fydd yn gyfrifol am chwe eglwys Bro Ogwen o fis Mehefin ymlaen.

Byddwn yn ei goesawu'n ffurfiol, ynghyd â'i wraig Elizabeth, nos Fercher, Mehefin 1af, yn eglwys Crist Glanogwen, ac edrychwn ymlaen yn fawr at gyfarfod y ddau, a chydweithio gyda'n gilydd.

Wyau Pasg

Diolch i'r rhai hynny fu'n garedig iawn yn prynu sgwariau er mwyn ennill yr wyau Pasg. Braff cael adrodd i'r 100 sgwar gael eu llenwi, a'r elw i fynd i'r Apêl.

Yr enillwyr oedd:

Donna Watts

Ann (Glasinfryn)

Nerys (Llandegai)

Alison Ellis

Llinos Hanson

Gobeithio i chwi eu mwynhau!

Cyngerrdd

Mae trefniadau'n dal ar y gweill am y

Cyngerrdd Mawreddog gan Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Marsh o Huddersfield, i'w gynnal yn yr eglwys nos Sadwrn Medi 24. Bydd y manylion yn y rhifyn nesaf o'r Llais, a'r elw i fynd at atgyweirio'r tŵr. Diolch yn fawr i'r ddau gôr am eu haelioni.

Gwasanaethau

Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaidd

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun neu Foreol Weddi. Croeso cynnes fel arfer i bawb.

Codi Arian

Y digwyddiadau nesaf fydd Noson Bingo yn y Clwb Criced a Bowlio nos Wener, Mehefin 17 am 7 yr hwyr – elw i Gronfa'r Apêl. Bore Coffi yng Nghanolfan y Cefnfaes fore Sadwrn, Mehefin 25 – elw at gynnal yr eglwys.

Hefyd byddwn yn cynnal stondin yn y Carnifal ddiwedd mis Mai. Dewch yn llw i gefnogi.

Yr Eglwys Unedig

Oedfaon

Cawsom wasanaethau bendithiol unwaith eto yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, ac mae'n diolch yn mynd i'r Parchedig Geraint Roberts, Y Parchedig John Owen, Mrs Nerys Griffiths, Mr Richard Lloyd Jones a Mrs Menai Williams am ein gwasanaethu. 'Rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau'n fawr iawn.

Yr Ysgol Sul

Ar Sul y Blodau, aeth rhai o'r plant i gymryd rhan yn y gweithgareddau a drefnwyd gan Y Parchedig Sara Roberts, ac yna ar Sul y Pasg cynhaliwyd Helfa Basg yn yr ardd o flaen y capel. Mae'r plant hefyd wedi bod yn brysur yn yn gwneud gwaith celf. Hoffem weld mwy eto ohonynt yn mynychu'r Ysgol Sul.



Paned

Braf yw cael cyhoeddi ein bod wedi ailddechrau trefnu paned yn dilyn yr oedfa ar fore Sul – mae'n hyfryd cael cyfle i gael sgwrs.



Gweithgaredd Indiaidd

Fe gofiwch i Gymdeithas Cyfeillion Indiaidd Bangor gynnal gweithgareddau yn adeiladau'r Capel yn ystod mis Mawrth. 'Roedd y tywydd yn hynod o braf, a gwnaed yn fawr o hynny drwy ddefnyddio'r ardd y tu allan i'r Capel. Ymysg y gweithgareddau yr oedd cyfle i hedfan barcudiaid, dawnsio, a phaentio'r croen yn y traddodiad Indiaidd. Dyma luniau sy'n adlewyrchu'r gwisgoedd hardd, a'r bwrlwm a fu



Gig 'Gong'

Dyma lun o'r gig a gynhaliwyd yn Ffestri Uchaf y Capel yn ddiweddar: **Sut yn y byd mae'r perfformiwr yn hedfan?**

Gwellhad Buan

'Rydym yn hynod o falch o glwyed bod Mrs Elina Owen wedi dod adref o'r ysbyty bellach, a dymunwn adferiad buan iawn iddi. Anfonwn ein cofiwn hefyd at bawb sydd yn llesg, neu'n fregus, neu'n gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

Cofio

Cofiwn am bobl Wcráin, sydd yn dioddef erchyllterau rhyfel, a gweddiwn am ddiwedd i'r bomio a lladd yno, yn ogystal â phob gwlad arall drwy'r byd sydd wedi, ac yn wynebu, wythnosau, misoedd a blynnydoedd o ddiodeffaint.

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd pawb yn bobl,
Lle na fydd gormes na nacâd,
Na chas byth mwy dragwyddol.

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd diwedd angau,
Lle na fydd cynnen, trais, na brad,
Lle na fydd ofn cadwynau.

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd cariad yno,
Lle na fydd dicter mwy, na llid,
Lle na fydd neb wylo.

A disglair ydyw'r muriau mawr
A hardd fel môr o wydyr,
A'r pyrth a egr yn y wawr
I fyd a fu a grwydr.
Gwyn Thomas

Cyhoeddiadau'r Sul:

Mai 22: Y Parchedig Olaf Davies (10 a 5)
Mai 29: Canon Idris Thomas (10)
Mehfein 5: I'w drefnu
Mehfein 12: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mehfein 19: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (10 a 5)

Cofiwch bod yr oedfaon yma i gyd ar gael ar y ffôn – croeso i chwi iymuno â ni.

CHWILAIR



NOFELWYR CYMRAEG

B	E	T	H	A	N	G	W	A	N	A	S	A	A	W	F	H	R	I	E
J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G
S	A	U	N	D	E	R	S	L	E	W	I	S	V	H	M	D	W	H	X
Z	S	E	I	V	A	D	L	A	G	E	T	D	R	A	W	D	E	M	X
V	A	T	C	A	R	A	D	O	G	P	R	I	C	H	A	R	D	D	T
D	N	A	R	P	A	U	Q	U	S	O	F	A	R	P	Y	Q	Z	R	G
R	H	S	C	E	U	M	W	N	N	O	T	Y	R	I	A	S	O	Z	U
T	F	D	E	X	B	U	S	P	E	R	W	R	H	C	Q	W	H	W	E
A	H	O	Y	M	E	O	E	O	I	W	G	E	O	M	L	H	E	P	T
T	N	C	B	B	A	C	R	N	M	U	O	U	J	A	P	L	T	M	I
V	V	N	D	C	B	E	D	S	B	O	F	L	N	R	F	O	G	J	V
I	I	R	E	R	X	A	N	I	I	M	T	D	E	H	T	T	O	S	K
O	P	W	R	S	F	C	M	O	K	W	H	D	C	I	B	O	R	C	X
V	R	Y	H	Y	G	S	T	M	I	U	E	R	A	E	N	F	Y	J	D
Z	H	B	D	C	W	L	O	S	G	R	C	L	R	R	A	A	I	X	N
I	L	D	X	J	J	M	Y	H	B	W	A	T	A	E	A	X	D	M	D
X	K	F	U	P	C	Q	E	N	Y	O	I	M	L	R	F	H	E	R	Z
Q	R	O	C	T	D	S	G	W	N	S	L	Z	E	B	G	E	G	A	J
K	S	L	E	I	N	A	D	S	A	L	O	H	C	I	N	I	J	N	C
L	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	E	Q	A

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG O NOFELWYR CYMRAEG i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Mai 26. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

Dyma'r tro cyntaf ers amser maith i mi dderbyn cymaint o atebion cywir i'r Chwilair, er fod tipyn ohonoch wedi methu a darganfod yr holl strydoedd. Cawn weld sut hwyl gewch chi gydag enwau'r nofelwyr yn y Chwilair mis yma.

Dyma atebion chwilair Ebrill:

Bro Salem; Bryn Hedydd; Bryn Owen; Cae Chwarel; Fron Chwith; Fron Deg; Lôn Groes; Rhes Stanley; Stryd Walter; Stryd y Ffynnon; Tan Dderwen; Tan y Fron.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:

Elizabeth Buckley, Tregarth; Heulwen Roberts, Bethesda; Helen Jones, Erw Las; Liz Hughes, Tregarth; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Amanda Roberts, Gerlan; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Marilyn Jones, Glanffrydilas; Doris Shaw, Bangor;

Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Alwyn Jones, Gerlan; Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Rosemary Williams, Tregarth; Wendy Dore, Bethesda; Dilys W. Griffith, Abergele; Eirwen Owen, Erw Las; Olive Williams, Maes y Garnedd; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Selwyn Owen, Bethesda; Carys Parry, Glanogwen; Gwenda Bowen, Gerlan.

Enillydd Ebrill oedd:

Gwenda Bowen, 10 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda.

PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Cynhaliwyd cyfarfod o gangen y Blaid ar nos Fawrth, 26ain Ebrill. Trafodwyd yr etholiadau cyngor oedd ar y gweill. Roedd yr aelodau'n falch o glywed fod ein ymgeiswyr wedi cael ymgyrch dda hyd yma, a bod gennym dîm amrywiol o bobl yn sefyll ar gyfer y cynghorau cymuned a'r cyngor sir. Dymunwyd pob llwyddiant i'n cynghorwyr newydd. (Manylion llawn yn rhifyn Mehefin).

Rydym yn diolch yn fawr i'r rhai sydd yn sefyll i lawr, am eu gwasanaeth gwerthfawr dros nifer o flynyddoedd, sef y Cynghorydd Gruff Charles Morris (Cyngor Cymuned Bethesda), y Cynghorydd Angharad Williams (Cyngor Cymuned Llandygai) a'r Cynghorydd Dafydd Owen (Cyngor Gwynedd). Dywedodd Dafydd Owen "Mae wedi bod yn fraint cynrychioli trigolion Tregarth a Mynydd Llandygai dros y blynyddoedd. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth."

Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i drafod rhaglen y Blaid am y flwyddyn i ddod. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ar Zoom dros y cyfnod nesaf, i drafod materion fydd yn codi. Penderfynwyd y dylid trefnu mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol fel cangen, ar ôl y cyfnod anodd dros y blynyddoedd diwethaf .

Rydym eisoes wedi cynnal un digwyddiad cymdeithasol llwyddiannus, sef y bore coffi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes ar y 30ain o Ebrill. Diolch i bawb wnaeth ddod a chyfrannu, a diolch i'r rhai wnaeth drefnu a gwirfoddoli. Gwnaed elw sylweddol! Diolch yn arbennig i Neville Hughes, ein trysorydd.

Ar ôl bwrlwm yr etholiad byddwn yn cyfarfod eto i drefnu mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol am y flwyddyn nesaf - gwylwch y gofod yma!

Yn olaf, mae'r Blaid yn beirniadu'r canghellor am ei fethiant llwyr i ddatrys y wasgfa ariannol presennol, yn dilyn ei gyllideb fis Ebrill. Meddai Hywel Williams AS "Mae torri gwerth cyflogau

yn ddewis gwleidyddol." Gyda'r cwmnïau ynni mawr yn gwneud elw anferth, gallai'r canghellor ddefnyddio'r arian yma i helpu pobl trwy'r cyfnod anodd, ond mae'n dewis peidio. Rydym yn ddiolchgar am y prosiectau lleol sydd yn lleihau tlodi yn y Dyffryn. Diolch i'r gwirfoddolwyr a'r trefnwyr.

Llongyfarchiadau i Beca Roberts ar ei llwyddiant yn yr etholiad. Bydd yn awr yn cynrychioli Tregarth, a'r un cyfarchion i Dafydd Meurig yntau am ddal ei afael ar ei sedd.



YMA I'CH HELPU

Eich cefnogi chi i wneud mwy ar-lein

- Cymorth personol gyda sgiliau digidol yn seiliedig ar eich diddordebau
- Sesiynau ar adeg ac mewn lle sy'n addas i chi
- Gallwn hefyd ddarparu dyfeisiau digidol, data neu gysylltiad mifi ar eich cyfer

Ffoniwch ni am ddim ar 0808 196 5883
digitalgwynedd@citizenonline.org.uk

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Citizens Online

Llythyr oddi wrth Gareth Jones, Pant Glas, Bethesda.

Wedi darllen yn y Llais hanes y "Greet the dawn" gan Dr. J. Elwyn Hughes, 'roeddwn yn awyddus i dangos llun y cefais hyd iddo wrth chwilota am ryw beth arall. Mae wedi cael ei dynnu yn y Gwernydd, Gerlan pan oedd ychydig ohonom ar y ffordd i lawr tua 5 o'r gloch y bore. Wrth lwc, roedd yn fore braf iawn, a'r olygfa o gopa'r Garnedd yn werth pob cam o'r cerdded trwm a blin. Mae'n

rhaid dweud fod trefniant wedi ei wneud i fynd eto ymhen wythnos, ond er i ni gychwyn cawsom ein dal mewn glaw trwm yn Gwernydd. Er i ni fynd ychydig ymhellach, 'doedd dim seibiant yn y glaw, ac ar ôl cysgodi mewn beudy yn Gwaun Gwail am ychydig, y dewis oedd gohirio'r fenter, rhoi pen i lawr a chysgu yn y beudy tan dorriad gwawr, cyn mynd adra am frecwastr a gwely cynnes.



Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. (01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com
Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

Dathlu pen-blwydd arbennig

Penblwydd hapus arbennig iawn i Alun Ffrancon Williams, Stryd y Ffynnon, fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 18 yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi cael amser da Alun.

Llongyfarchiadau

Longyfarchiadau mawr i Caleb Rhys, Stryd Isaf, sydd wedi llwyddo yn ei Radd Meistr Perfformio mewn Cerddoriaeth o'r RNCM ym Manceinion. 'Roedd Caleb yn astudio'r llais ac mae'n adnabyddus iawn yn barod fel aelod blaenllaw o Gôr Meibion y Penrhyn. Pob lwc i ti yn y dyfodol Caleb, a gobeithio y cawn ni gyfle i weld mwy ohonot yn perfformio dros y blynyddoedd nesaf. Mae 'r teulu a dy ffrindiau mor falch o dy lwyddiant.

Rheswm arall i ddatlu yn Stryd Isaf oedd bod Mabli Non, chwaer Caleb, hefyd yn dod i ddiwedd ei chwrs yng Ngholeg Brenhinol Ffasiwn Llundain. Fel rhan o'i chwrs, bu'n rhaid i Mabli gynllunio arddangosfa o'i gwaith a oedd yn canolbwyntio ar wrachod Cymreig. Os hoffech weld mwy o waith 'dychrynlyd'Mabli, ewch ar Instagram @ celfmabliart. Bu'r teulu i gyd i lawr yn Llundain yn gweld y gwaith anhygoel y bu Mabli'n ei ddylunio. Llongyfarchiadau mawr

iti Mabli a phob lwc iti wrth iti symud ymlaen i'r bennod nesaf yn dy fywyd.

A phe bai hynny ddim yn ddigon i'r teulu talentog hwn, dyma newyddion yn ein cyrraedd fod Dyddgu Glyn hithau wedi llwyddo yn ei phrawf gyrru! Y goron driphlyg felly i'r teulu talentog hwn!

Diolch

Ddiwedd mis Mawrth, cafodd Caren Brown y profiad anhygoel o gymryd rhan ym marathon Caerdydd. Mi lwyddodd i'w gwblhau a hoffai ddiolch i bawb a'i noddodd a'i helpu i godi bron i £600 i'r NSPCC.


Llety Clyd

Os ydych yn chwilio am lety clyd i deulu neu ffrindiau efo golygfeydd anhygoel yna mae yna le posib iddynt yn Nhŷ Dŵr yn Gerlan. Mae Huw, Amanda a'r adeiladwyr wedi creu lle hynod gysurus a chlod yn nghesail y Carneddau sy'n cysgu hyd at 6 o bobl.

Wedi adnewyddu hen adeilad purfa ddŵr mae Huw ac Amanda – purfa ddŵr a agorwyd yn wreiddiol yn 1932 er mwyn ceisio gwella safon dŵr y pentref. Pob dymuniad da i chi efo'r fenter newydd.

Symud o Gerlan

Pob dymuniad da i Owain Evans yn ei gartref newydd yn Rhos Mostyn, Bethesda. Mae Owain wedi byw yn 'Rallt Isaf erioed efo Edwina, Robin a'i frawd, Ynyr. Gobeithio dy fod yn setlo lawr yn Stryd Owain.



Priodi

Ar y 18fed o Ebrill eleni, fel rhan o'i gwaith achlysurol fel Swyddog Seremonïau, ceafodd Caren Brown fynd i briodi cwpwl yn Nant Gwrtheyrn. Mae bob tro yn brofiad arbennig yn cael priodi rhywun 'rydych chi'n eu hadnabod ac felly 'roedd yn fraint o'r mwyaf ganddi gael priodi Lynwen Ann (Griffith gynt) a Mathew Roberts. 'Roedd yn ddiwrnod bendigedig, ac mor braf gweld gymaint o wynebau cyfarwydd yn y gynulleidfa ar y lawnt - yn arbennig Gwen a Dewi Griffith Ciltrefnus, rhieni Lynwen, a Dafydd a Carol Roberts, Erw Las (rhieni Mathew). Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau. Dyma lun o'r ddau efo'u mab Cian. Rydym yn clywed bod hen ddathlu wedi bod yn ystod y dydd a chyda'r hwy!

Llongyfarchiadau hefyd i Ffion Roberts (merch David Wyn Roberts Ffordd Gerlan a Mair Roberts Glan Ogwen) a David Thomas (mab Keith a'r diweddar Janice Thomas) ar eu priodas hwythau. Gobeithio eich bod chi wedi cael diwrnod arbennig yn dathlu yn Henblas. Pob dymuniad da i chi a'r genod.

Mynydd Llandygai

Priodas

Llongyfarchiadau i Kev Andrews a Catrin Bond, Ffordd Hermon, ar eu priodas yn ddiweddar, a hynny ar ôl gorfod gohirio'u cynlluniau gwreiddiol diolch i'r pandemig! Dymuniadau da i chi'ch dau a'r teulu.



Nyth y Gân



Y BUGAIL A'R CYNEFIN

Gŵr hynod gân yr anial, a phorfa
Heb ffurfiau i'w chynnal;
Uwch y waun, a hwy ar chwâl,
Ei ddefaid gafodd ofal.

SŴN HIRAETHUS

Mae'r atgof fel yr afon
Ac iddi siwrnai faith
Yn cychwyn fry'n y mynydd
Fel ffos fach ar ei thaith.

Ei sŵn yn yr ucheldir
A'n hudai ni bob un
I wrando arni'n canu
Gan dynnu ambell lun.

Mae'r cofio'n codi hiraeth
Am grwydro'r mynydd iach
A glannau'r ffos yn denu
Holl sylw'r hogia' bach.

Y ffosydd bychain eraill
Ymuna'n braf â hon,
A'i swynol gân arafa
Ac nid yw hi mor llon.

Rhyw sŵn undonnog glywir
Yn awr o nerth ei lli,
Ac nid yw hwn yn deffro
Yr hiraeth ynom ni.


PORTREDAU GAN ARLUNWYR

Deil hynod liw a hanes enwogion
Yn agos a chynnes;
Tynnant ni atynt yn nes
I ni gael gweld y neges.

TYMOR NYTHU

Daw'r adar heddiw'n barau yn y gwŷdd
I guddio'u trysorau;
Yno'n gain maent hwy yn gwau
Yn grefftus fregus frigau.

Dafydd Morris



SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi

Sadwrn,
18 Mehefin 2022
10.00 – 12.00

Mynediad : £1.00

Elw: Eisteddfod Genedlaethol
Llŷn ac Eifionydd 2023
(Trefnir gan Bwyllgor Ardal Dyffryn
Ogwen)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



I GAE'R 'VALE'

'Ceir yn rhes am filltir,
Ro'n nhw'n parcio yn Nhal'sarn;
'R hen gae Vale 'di dychryn,
Miloedd yn tyrru i'r fan.'

Felly y canodd Sobin a'r Smaeliaid am y gêm bêl droed enwog rhwng Bryncoch a Chwmderi ar gae Nantlle Vale wythnos Eisteddfod yr Urdd ym 1990. Doedd hi ddim mor brysur yno fore Sadwrn diwethaf, ond roedd hi'n ddigon prysur i mi orfod parcio cryn bellter o Faes Dulyn.

Rwy'n gyfarwydd iawn â'r cae hwn. Yn blentyn, bûm yno'n aml i gefnogi tîm Llanberis, ac yn ddiweddarach bûm innau'n chwarae yno lawer gwaith. Yn fwy diweddar, fel y dydd o'r blaen, gemau pêl droed plant ac ieuencid aeth á mi yno. Ond y Sadwrn diwethaf oedd y tro cyntaf i mi gerdded at y cae o waelod pentref Penygroes ar hyd llwybr yr hen reilffordd. A'r gwir ydi mai dyna'r tro cyntaf i mi sylweddoli bod y llwybr hwnnw mor agos i'r cae. Tybed sawl gwaith y bu i mi gicio'r

bêl dros y gwrych yn y gornel honno o'r cae heb sylweddoli mai ar yr hen drac yr oedd yn glanio? Braff oedd 'darganfod' y llwybr hwn y dylwn i fod yn gyfarwydd ag o ers talwm gan ei bod wastad yn ddifyr dilyn hen drac rheilffordd.

Soniodd un o broffwydi'r Hen Destament am hen lwybrau: 'Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: "Safwch ar y ffyrdd; edrychwch, ac ymofyn am yr hen lwybrau. Ple bynnag y cewch ffordd dda, rhodiwch ynddi, ac fe gewch le i orffwys." Ond dywedasant, "Ni rodiwn ni ddim ynddi"' (Jeremeia 6:16). Gallwn ninnau annog ein gilydd ac eraill i chwilio am hen lwybrau'r Ffydd Gristnogol a aeth yn ddieithr i gynifer o bobl ein gwlad ond sydd er hynny mor werthfawr ag erioed: y gwirioneddau am Dduw a'i gariad; yr hyn a wnaeth Iesu Grist trosom trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad; y bywyd newydd trwy ffydd yng Nghrist; a'r gobaith am y bywyd tragwyddol. Y fath wefr a gaiff pobl wrth ddod i weld y gwirioneddau hyn drostynt eu hunain. Yr un yw'r Efengyl ag

erioed: yr un ei chynnwys a'i grym i newid a chyfoethogi bywydau pobl. Yr un yw Iesu Grist a'i gariad a'i waith achubol. Yr un yw Duw yn ei ras a'i faddeuant. Ond mae'r cyfan mor ddieithr i'r rhelyw o bobl.

Tystiolaeth y Cristion ydi ei bod yn werth chwilio am yr hen lwybrau gan nad oes newydd gwell na newyddion da'r Efengyl ac nad oes fywyd gwell na'r bywyd newydd yng Nghrist. A baint y Cristion ydi dwyn ei dystiolaeth i Grist a byw er ei fwyn mewn ffordd sy'n dangos i eraill na fedr neb na dim gynnig y llawenydd a'r gobaith a geir trwy Iesu Grist. Mor bwysig yw gwneud hynny gan fod cynifer o bobl yn gwbl ddall i brydferthwch Crist a chyfoeth ei Efengyl. I lawer o bobl, perthyn i orffennol ein hanes fel cenedl a bro y mae'r Beibl a'r Ffydd a'r Gwarddwr. Ond hen lwybrau sy'n dal yno, yr un mor werthfawr ag erioed, yw'r rhain. A chyda Jeremeia, gallwn ninnau annog ein gilydd i edrych a chwilio amdanynt gan addo na chaiff neb a wnelo hynny ei siomi.



Gweithio gyda

Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin

"Profiadau dysgu ac addysgu rhagorol", Estyn 2021

Dach chi'n berson sydd ...

- â diddordeb mewn pobl?
- eisiau gwneud gwahaniaeth?
- â'r gallu i ysbrydoli eraill?
- eisiau gweld y Gymraeg yn ffynnu?

...ymgeisiwch am swydd fel Tiwtor Cymraeg tâl wrth yr awr gyda DCGO.

Am ragor o wybodaeth a chopi o'r ffurflen gais anfonwch e-bost: dysgucymraeg@bangor.ac.uk

www.dysgucymraeg.cymru/go
01248 383928



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



GŴYB MELANGELL

EGLWYS
GLANOGWEN
LL57 3NL



TOCYNNAU
£12
@ eventbrite:
Gwyl Melangell



Nos Wener
27ain o Fai
7yh



NOSON O ADLONIANT

CHWEDLAU, CERDDORIAETH, BARDDONIAETH

gyda

ERIC MADDERN

CERDD WYLLT CÔR GLANOGWEN
ANGHARAD OWEN CLAIRE MACE
PESDA JAZZ COLLECTIVE & MWY!

HOLL ELW AT CROESO MENAI
(GRŴP LLEOL NODDI FFOADURIAID)

Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar @Llais_Ogwan



Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com



Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Etholiad Cyngorau Cymunedol

Cafodd Paul Rowlinson (yr ymgeisydd sirol ar gyfer Ward Rachub) ei ethol yn ddiwrthwynebiad i Gyngor Gwynedd. Hefyd, cafodd Huw Jones, Godfrey Northam, Michael Williams a Walter Williams (yr ymgeiswyr cymunedol ar gyfer Ward Rachub) eu hethol yn ddiwrthwynebiad i Gyngor Bethesda.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion y diweddar Ken Morgan, Hen Barc. Bu ei gynhebrwng yn Amlogfa Bangor.

Gair o ddiolch

Dymuna Judith Thomas Jones ddiolch i bawb a fynegodd gydymdeimlad â'r teulu yn dilyn colli ei thad y diweddar Vernon Davies ar 26 Chwefror 2023. Roedd Mr Vernon Davies yn un o dri mab a aned i John Emlyn (Jack) ac Alice Davies (Als) o 18 Lôn Groes (Water Street) Llanllechid, a bu'n gweithio fel saer coed am dros 40 mlynedd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn. Bu Vernon yn byw yn Rachub hyd farwolaeth ei annwyl wraig Iris Davies yn 2013, ac wedi hynny symudodd i fyw at ei ferch Judith a'i theulu ym Môn.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mike Fox, Ffordd Y Mynydd, sydd mewn ysbty.

Blodau

Y mae'n dda gweld y blodau a blannwyd yn ffynnu o flaen Maes Bleddyn.

Plannwyd coed ar ochr cae chwarae Rachub fel rhan o ymdrech Partneriaeth Ogwen i greu perllannau yn y Dyffryn.

Trafnidiaeth

Mewn cyfarfod o Gyngor Bethesda, tynnodd y cynghorydd cymunedol Michael Williams sylw at y ffaith bod bysiau o Fangor wedi peidio â stopio ger Maes Bleddyn. O ganlyniad, mae'r cynghorydd sirol Paul Rowlinson wedi gwneud cais i gael safle bws swyddogol yno.

Yn ogystal, cafodd y llinellau melyn eu hail beintio ar y ffordd ger Capel Carmel yn ddiweddar, a pheiodd y cam-barcio. Hefyd, codwyd drych ger y capel i helpu cerbydau sy'n dod o Stryd Britannia. Diolch i Gyngor Gwynedd am y ddau.

Codi arian

Llongyfarchiadau i Hari o Lwyn Bedw sydd wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn gwneud bathodynau, ac wedi casglu cyfanswm o £343 tuag at apêl DEC Wcráin. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr achos da hwn.



Capel Carmel

Mae'r Ysgol Sul wedi ail-ddechrau bob wythnos yn ysgoldy Carmel erbyn hyn yn ogystal â Chlwb Dwylo Prysus y bobl ifanc bob nos Wener. Ar ddiwedd mis Ebrill, llwyddwyd i ail-ddechrau'r Te Bach yn yr ysgoldy yn ogystal.

Merched y Clwb Gwau a oedd yn gofalu am y bwyd a'i weini, a gwerthu nwyddau hefyd. Roedd rhai o'r merched wedi bod yn brysur yn gwau sioliau a chotiau gwau i fabanod ar gyfer eu gwerthu nhw. Diolch i Gwyn Williams a staff Popty Cae'r Groes am y cacennau a'r bara brith.

Cynhaliwyd y Te Bach arbennig hwn i gasglu arian at yr ymgyrch ddyngarol yn yr Wcráin, a rhoddwyd yr elw i gyd i'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC). Dyma'r grŵp sy'n cwmpasu 15 o elusennau rhyngwladol amrywiol ac sy'n weithgar tu hwnt yn Wcráin ac mewn gwledydd cyfagos ar hyn o bryd. Mae Cymorth Cristnogol yn perthyn i'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau ac fe ddaeth Llinos Roberts – Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chasglu Arian Cymorth Cristnogol – i'r Te Bach i siarad am y gwaith sy'n cael ei wneud ganddyn nhw. Roedd cyfanswm yr arian a gasglwyd – sef £1,300 – yn gyfuniad o roddion ariannol gan aelodau a chyfeillion Carmel, casgliad y cyfarfod Gŵyl Ddewi, ac elw'r Te Bach. Diolch i bawb am eu haelioni, ond yn bwysicach, am y gefnogaeth i'n cyd-ddyn yn yr Wcráin.



Hysbyseb

Bydd Te Bach nesaf Carmel yn cael ei gynnal ar Fehefin 13eg rhwng 2:30 – 4:00 y pawns. Croeso i bawb.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



Y Frân Goesgoch

Golygfa ryfeddol ydi gweld haid o frain coesgoch yn dod i lawr o'r niwl yng Ngharreg y Gath ym mhen uchaf y Waun Lydan yng ngheg Cwm Ffynnon Gaseg. Efo'u coesau cochion amlwg wedi eu sythu, maent yn gwneud i chi feddwl am awyrennau wedi gostwng eu hoffer glanio. Dyma aderyn sy'n medru symud yn gryf a deheuig ar adain, gan ddefnyddio'r gwynt i hofran a throi'n acrobatig. Mae blaenau ei hadenydd fel bysedd i hwyluso'i symudiadau.

Aderyn pur anghyffredin ydi'r frân goesgoch (*Pyrrhocorax pyrrhocorax*), yn gyfyngedig i orllewin Cymru, Ynys Manaw, Iwerddon a'r Alban. Clogwyni glan môr a chlogwyni yn y mynydd ydi ei chynefin, a'r llefydd eraill yn ein hardal ni lle mae hi wedi ei gweld ydi'r Ysgolion Duon, Cwm Idwal a Chwarel y Penrhyn.

Enwau eraill arni ydi Brân Gochbig (enw addas gan fod ei phig hefyd yn goch), Brân Iwerddon, Palores, Brân Arthur a Brân Gernyw. Bu'n gyffredin yng Nghernyw ond diflannodd o'r tir. Fodd bynnag, mae nifer o barau wedi dychwelyd yno'n ddiweddar. Arferai'r Prifardd Moses Glyn Jones wyllo'r frân goesgoch ar glogwyni arfordir Llŷn, a chyfeiriai ati fel 'Y Sipsi Geltaidd'.

Mae'r frân goesgoch yr un maint â jac-y-do, tua 40cm. Du-las sgleiniog ydi lliw ei phlu, ac mae tro yn ei phig hir i fedru dal pryfed – morgrug, pryfed cop a chwilod – mewn gwair byr ar forfa neu ar borfa fynyddig. Bydd yn adeiladu nyth efo gwreiddiau, grug a choesyntau mân blanhigion a'i leinio efo gwlan neu flew, ac mae'n dodwy rhwng tri a phump o wyau.

Ei galwad ydi 'tshïow' uchel a hir, a galwad debyg i gri gwylan – 'cwêc-wêc-wêc'.

Os am weld y brain arbennig hyn yn agos, mae'r maes parcio uwchlaw Ynys Lawd yng ngogledd-orllewin Môn yn lle da gan eu bod yn dod i fyny o'r clogwyn i'r rhostir uwchben i ddal pryfed.



Wyddech chi ...?

- fod genau goeg wedi ei weld cyn uched â hanner ffordd i fyny'r Twll Du yng Nghwm Idwal (cofnod y naturiaethwr William Condry mewn arolwg o fywyd gwylt Eryri yn y 1960au).
- fod llygod pengron y gwair a llygon cyffredin (creadur tebyg i lygoden fach ydi llyg, ond yn llai o faint ac efo trwyn hirfain) wedi eu gweld ar y Glyderau (cofnod W. Condry eto).
- fod nythfa'r creïrod gwynion bach yn Abercegin yn un o'r rhai mwyaf yng Nghymru efo rhwng 50 a 60 o nythod. Daw'r aderyn hwn yn wreiddiol o Affrica a pharthau deheuol Sbaen a Phortiwgal.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanywyn01@gmail.com 01248 600297.

Arian y Loteri Genedlaethol i helpu pobl a chymunedau Cymru i ffynnu

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu ac yn cynnal sesiwn ariannu Gymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau ledled Cymru ar 17 Mai.

Bydd y sesiwn ariannu yn cael ei chynnal ar-lein ac yn rhoi mwy o wybodaeth am ein grantiau a sut i wneud cais am arian gan y Loteri Genedlaethol. Bydd cyfle i holi cwestiynau yn ystod y sesiwn hefyd.

Dyweddodd Ruth Bates, Pennaeth Cyfathrebu Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, "Dydy ein rôl ni fel ariannwr gweithgaredd cymunedol erioed wedi bod mor bwysig. Rydyn ni yma i gefnogi grwpiau cymunedol ac elusennau

i gael mynediad at arian Loteri Genedlaethol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gefnogi grwpiau i ffynnu.

"Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU. Rydyn ni eisiau ariannu projectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau, ac rydyn ni'n gwybod mai'r



projectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sydd wedi'u datblygu gan y bobl a fydd yn elwa ohonyn nhw."

Mae grantiau, a wnaed yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ar gael i gefnogi cymunedau a sefydliadau drwy raglenni Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a Pawb a'i Le.

Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brojectau cymunedol, gan gynnwys projectau sy'n ymateb i bandemig COVID-19. Mae Pawb a'i Le yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: <http://cronfagymunedolyg.org.uk/cymru>

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn mynychu'r sesiwn ar ddydd Mawrth, 17 Mai, cysylltwch ag awel.jones@cronfagymunedolyg.org.uk am fanylion pellach ar sut i gofrestru.

Iaith Pesda

Yn aml iawn defnyddiwn yr enwau am rannau o'r corff er mwyn cyfleu rhywbeth arall hollol wahanol.

Cymrwch y gair **llaw**. Pan fo pobl yn ffrindiau da neu'n gyfeillion ers tro byd yna dywedir iddynt fod yn **hen lawia**. Ar y 'llaw' arall 'dydych chi'n fawr o fêts os cynigiwch **gefn llaw** i rywun. Ambell dro bydd teulu neu unigolion yn gorfod mynd drwy amser caled, efallai yn gorfod ymgeleddu aelod o'r teulu sy'n wael, yna dywedir bod y person wedi cael **llaw galed**. Yn aml gwelwn blentyn bychan yn estyn am ei blât bwyd gyda'i law – **llaw cyn llwy**.

Rhigwm Rhyfedd

Yn ddiweddar cefais gopi o hon ynghyd ag eglurhad.

Tua 150 o flynyddoedd yn ôl byddai plant Dyffryn Ogwen yn canu'r pennill hwn sy'n llawn geiriau diystyr:

Coimi nero, cilti cero,
Coimi nero, coimi;
Lara bong a ring ting,
A rig nym a bwli dym a coimi.

Mae rhai o drigolion yr ardal yn gyfarwydd â'r rhigwm gan iddyn nhw ei ddysgu gan eu neiniau neu eu teidiau. 'Roedd plant ardaloedd eraill yn canu fersiynau heb fod yn wahanol iawn, ac mae cofnod ohonyn nhw mewn ardaloedd fel 'Stiniog, Waenfawr, Llanfairtalhaearn a'r Bala. Mae'r rhigwm yn cael ei drafod gan Vivian Parry Williams yn rhifyn diweddaraf cylchgrawn Y Casglwr ac mae ei erthygl yn cynnwys llythyr oddi wrth y diweddar Dr Meredydd Evans (Merêd) a oedd yn arbenigwr ar ganu gwerin. Ynddo mae Meredydd Evans yn dweud bod rhigymau fel hyn weithiau'n gysylltiedig â Chwaraeon Plant, ac mae o'n cyfeirio at yr hen arfer o ddefnyddio rhigymau ar gychwyn y chwarae trwy gyfri sillafau i ddewis plentyn i wneud rhywbeth neu'i gilydd, er enghraifft, i sefyll ynghanol cylch neu i gau ei lygaid tra bo'r gweddill yn rhedeg i guddio.

Byddai rhigwm fel 'Coimi nero.....' yn cael ei gydganu gan blant a phobl i gefnogi a llongyfarch timau mewn gemau, neu gorau a phartion mewn eisteddfodau. Hynny ydy, y geiriau'n ddi synnwyr ond bod y cyd-

ganu yn mynegi teimlad.

Yn rhyfedd iawn yn fuan wedyn mewn sgwrs gydag un o drigolion yr ardal cefais y rhigwm yma a fyddai'n cael ei ganu iddi gan ei thad.

O wi a wo a waca
Ali gwdi ga salamenta,
Epris Papris my papa,
Don palio here we go
Wi a wo a waca.

Ac wrth glywed hon cofiais innau am un a ddysgwyd i mi ers talwm iawn gan John Jones (John Ambiwllans Ysbyty'r Chwarel)
Ara jib eragwni
Ping pong pining
Cara cara wasgot
Chinese chin.

Dwn i ddim os oes gan y ddau yma unrhyw gysylltiad ag eglurhad y gyntaf. Os ydych chi wedi clywed y rhigwm cyntaf neu unrhyw wybodaeth am fwy rhowch wybod.

Ambell Air

Cyboli Mae dweud wrth rywun am beidio cyboli neu drafferthu i wneud rhywbeth yn gyfarwydd, ond ers talwm pan fyddai hogyn yn mynd allan neu'n calyn (canlyn) efo hogan, neu fel arall, efallai y clywch hyn " Mae Beti yn cyboli efo'r hen Huw 'na" ac yn aml ni fyddai yn cael ei ddweud mewn ffordd rhy glên.

Oriog "Ddwedodd y ddynas tŷ pen 'na ddim wrthaf i heddiw, ond wsos diwetha' 'doedd dim cau ar ei cheg hi, ew mae'n berson orio". Ydych chi'n defnyddio'r gair yma?

Babi dol wacs Dyna fydda mam yn fy ngalw ar adegau ers talwm pan fyddwn yn crïo am beidio cael fy ffordd fy hun, ac wedyn byddwn yn chwerthin. 'Rydw i'n dal i chwerthin wrth feddwl am y peth a deud y gwir.

Sbrêts Gair arall gan mam pan oeddem yn blant drwg "Cerwch oma'r sbrêts"

Cofiwch gysylltu
maryeds@hotmail.co.uk 42 Erw Las
Bethesda LL57 3NN Ffôn 07443047642

STADAU

Yn ystod y tair blynedd diwethaf sefydlwyd dwy stad newydd, ac mae un arall ar fin cael ei hadeiladu, yn ardal Bethesda - un dros y ffordd i Blas Ffrancon (Lôn Bach Odro), a'r llall ger y feddygfa ym Methesda, a'r trydydd yn Rachub, dros y ffordd i stad Maes Bled-dyn. Gwnaeth hyn i mi feddwl faint o stadau o fwy na 4 tŷ sydd wedi cael eu hadeiladu ar yr un pryd yn ardal Bethesda, ers dechrau chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Dyma fynd ati i grwydro'r ardal o'r Gerlan, drwy Carneddi i Rachub, ac yna yn ôl i Fethesda, i weld faint o dai 'roeddwn yn cofio'u gweld yn cael eu hadeiladu. Dyma i chi restr ohonynt ynghyd ag amcangyfrif o nifer y tai:-

Hen Aelwyd, Stryd Fawr Bethesda	4
Pen y Clwt, Gerlan	8
Hen Gapel, Gerlan	4
Bryn Caseg	22
Aber Caseg	48
Llawr y Nant	23
Rhos y Nant	8
Maes y Garnedd	30
Maes yr Athro	10
Carneddi	8
Tan y Gaer, Carneddi	12
Llidiart y Gwenyn	7
Bron Bethel, Rachub	38
Yr Ynys, Rachub	4
Tan y Garth, Rachub	29
Bron Arfon, Rachub	8
Llwyn Bedw, Rachub	10
Ffordd Coedmor	6
Ystad Coetmor	7
Lôn Bach Odro	18
Erw Las, Bethesda	43
Rhos y Coed, Bethesda	13
Llety'r Adar, Bethesda	17
Llain y Pebyll	14
Gerddi Dôl Ddafydd, Bethesda	4
Tai yn arwain at Maes Rygbi (Lôn Sarnau)	9
Gwêl y Nant, Bethesda	6
Bryntirion, Bethesda	10
Tabernacl	4
Cil Caseg, Bethesda	8

Fel y dywedais nid yw'r rhifau yn union gywir ond mae'n rhoi syniad faint o gartrefi newydd sydd wedi cael eu hadeiladu yn yr ardal dros y chwe deg mlynedd diwethaf. Os gwyddoch am rai eraill nad wyf wedi cofio amdanynt rhowch wybod i mi.

Andre Lomozik

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Capel Shiloh

Cofiwch fod gwasanaethau yn Shiloh bob Nos Sul am 5 o'r gloch. Croeso i bawb fynychu'r oedfa.

Mai 22 – Idris Thomas, Dinorwig
Mai 29 – R.O. Jones, Gaerwen
Mehefin 5 – Richard Gillion
Mehefin 12 – Ellie Jones, Coed y Parc
Mehefin 19 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 26 – Nerys Ann Griffiths, Caernarfon

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sydd yn methu dod i'r gwasanaethau ar hyn o bryd. Meddwl amdanoch i gyd.

Rydym bob amser yn falch iawn o groesawu aelodau o gapeli lleol eraill yn achlysurol atom i'r oedfa ar nos Sul yn Shiloh. Mae Barbara Jones, Talybont, yn rhywun sy'n dod yn gyson gyda'i ffrind Iris Harper ac rydym yn falch iawn o'u cwmni. Diolch Barbara a chofion annwyl at eich gŵr Ifan, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Gwellhad buan i chi Ifan.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom y fraint o wrando ar ferch Barbara ac Ifan, Laura Caradog, yn arwain y gwasanaeth ar fore Sul ar Radio Cymru yn Oedfa'r Bore. Hyfryd oedd ei neges gan roi sylw a gwerthfawrogiad o wasanaeth y Crynwyr. Diolch Laura a chofion atoch chi a'r teulu ym Mhontyberem, Sir Gaerfyrddin.

Drws Agored yn Shiloh

Braf ydi cyhoeddi fod y drws ar agor bob bore Gwener yn Shiloh. 'Rydym yn croesawu unrhyw un o'r ardal am banded, sgwrs a chwmmi. Trist yw colli un o'r cwmni ffyddlonaf ar fore Gwener, sef Betty Morris, Ffordd Tanrhiw. Byddwn yn colli ei chwmmi annwyl ac anfonwn ein cofion at ei theulu. Byddwn yn cofio am Bet am hir iawn.

Profedigaeth

Ar Ebrill 6 yn ei gartref, 1 Erw Faen, bu farw Meirion Jones. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Barbara, y plant Richard, Steven ac Elinor, ei wyrion Kirsty, Nathan, Sadie, Callum a Ruby, a'i frawd Gareth. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Ebrill 25.

Bu farw Betty Morris ar Ebrill 9 yn dawel ym Mlas Ogwen, Bethesda, o 41 Ffordd Tanrhiw a chynt o Fryn Awel, Sling. Roedd Betty yn wraig i'r diweddar O.G. Morris ac yn fam i Gwenda, Gwyn, Rhiannon a Bethan. Hi oedd Nain Tregarth i Lowri, Ffion, Fflur, Mari, Emma, Sophie, Robert, Elin a Nel, hen nain i Alaw, Gruff, Betsan, Twm, Macsen, Ifan, Nyfan a Gwilym. Ffrind arbennig iddi oedd Anne. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Ebrill 25. Bydd tristwch mawr o golli Bet ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyr â chi fel teulu, ffrindiau a chymdogion.

Merched y Wawr Tregarth

Daeth y gangen at ei gilydd i Gapel Shiloh, Nos Lun, Ebrill 4. Croesawodd Myfanwy bawb i'r cyfarfod a llongyfarchwyd Carol ac Alison, y ddwy wedi dod yn Nain unwaith eto. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau a chyn aelodau sydd wedi bod yn wael ac yn methu mynychu'r cyfarfodydd ar hyn o bryd. Meddyliwn am Nesta Williams sydd ddim yn rhy dda ei hiechyd a'i gŵr lolo sydd mewn cartref yn Llanberis.

Wil Aaron oedd y gŵr gwadd. Mae'n awdur ac arloeswr ym myd teledu, fel cyfarwyddwr a chynhyrhydd annibynnol a sefydlydd cwmnïau teledu ac adnoddau dylanwadol. Ffurfiodd gwmmi teledu Ffilmiau'r Nant yn 1976, y cwmni a gynhyrchoedd raglenni fel Hel Straeon, Sgorio a C'mon midffild i S4C. Mae hefyd yn awdur a hanesydd llwyddiannus.

Ymddangosodd ei lyfr 'Poeri i lygad yr eliffant' yn 2016, a chafwyd noson ddifur yn ei gwmmi yn sgwrsio am gynnwys y llyfr. Siaradodd am y 5,000 o arloeswyr a adawodd Cymru a theithio i'r Gorllewin Gwylt yn y 19eg ganrif. Cawsom wybod am siwrne gyffrous y Mormoniaid Cymreig a groesodd y paith a'r Rockies i Ddinas y Llyn Halen gyda wageni ac ychen cyn dyfodiad y tren. Fel pob stori antur werth chweil, mae dewrder ac ofn, cynnwrf a thorcalon ar hyd y daith gofiadwy. Un o'r Cymry a groesodd i Utah ym 1861 oedd Martha Hughes, sef merch i saer o Landudno. Pedair oedd Martha yn croesi'r paith ac mae ei hanes yn llyfr Wil Aaron yn eithriadol o gyffrous. Bu'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Michigan gan ddilyn cwrs meddygaeth. Gadawodd yrfa lwyddiannus gan briodi Angus Munn Cannon. Dychwelodd i Ddinas yr Halen ac agorodd goleg hyfforddi nyrsys, a dechreuodd ymgyrchu i gael carthffosiaeth a dŵr glan i'r dref. Dyma wraig arbennig ac arloesol. Cewch ei hanes yn llyfr Wil Aron. Diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Myfanwy.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Lun Mai 9 yng nghwmni Tomos Hughes, fydd yn sôn am ei waith gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans. Ar Fehefin 6 cawn gwmmi Ben Stammers, a'i destun fydd 'Gwenoliaid'.

Jambori Corea

Mae Alex Mayhead o Dregarth wedi'i ddewis i gynrychioli Sgowtiaid Bangor gyda thri o'i gyfoedion yn Jambori mwyaf y Sgowtiaid a gynhelir yn Ne Corea rhwng 1-12 o Awst, 2023. Bydd y Jambori yn gweryslla nifer fawr iawn o Sgowtiaid a dyma'r un gyntaf i gael ei chynnal ers cychwyn y pandemig Cofid. Bydd 50,000 o bobl ifanc o bron pob cenedl ar y ddaear yn cymryd rhan.

Mae Jambori Sgowtiaid y Byd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd a fydd o ddefnydd yn eu bywydau, ac i ymgyrchu dros newid ar faterion allweddol y byd sydd o bwys iddynt.

Mae Alex wedi'i ddewis oherwydd ei sgiliau cyflwyno, cyfathrebu a'r gallu i weithio fel rhan o dîm ac fel unigolyn, ac mae'n edrych ymlaen at gynrychioli Sgowtiaid Bangor (a'i hen grŵp Cubs yn Bethesda). Mae hefyd yn awyddus iawn i rannu'r diwylliant ac iaith Gymraeg efo'i gyfoedion o bedwar ban byd.

Mae'r mynychwyr o'r DU wedi mabwysiadu logo efo'r Teigar Siberia, sef anifail cenedlaethol Corea. Maent wedi'i enwi yn Chingu, sef 'ffrind' yn iaith Corea.

Bydd Alex a'i gyfoedion yn Sioe Dyffryn Ogwen eleni, ac os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfrannu at gost y daith, gallwch gysylltu gyda: marion.mayhead@outlook.com.

Llongyfarchiadau mawr i ti Alex, a phob dymuniad da i ti allu casglu'r arian, ac am gael dy ddewis i fynd i Dde Corea.

Damwain

Dymunwn wellhad buan i Mrs Margaret Pritchard, neu Margaret Siop, fel yr adnabyddir hi gan bawb yn y pentref. Cafodd ddamwain yn ei chartref, – gobeithio y gwelwn chi yn ôl yno yn fuan.



Marchnad Ogwen

Mehefin 11eg
Gorffennaf 9ed
9.30am - 1pm
Clwb Criced a Bowlio

Bwydydd,
Creffttau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

YSGOL LLANLLECHID

Eisteddfod yr Urdd

Cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Pontio, Bangor ar Ebrill 2il. Llongyfarchiadau i'r Côr a'r Côr Cerdd Dant ar ddod yn fuddugol yn eu cystadlaethau. Llongyfarchwn hefyd yr ensemble lleisiol, a ddaeth yn ail, a'r ensemble offerynnol. Bydd yr ensemble lleisiol hefyd yn ei throi hi am Sir Ddinbych! Da iawn wir! Dyma fwy o ganlyniadau:

Cystadleuaeth	Enw	Safle
Llefaru Blwyddyn 5 a 6	Gruffudd Beech	1af
	Nest Durrant	2il
Unawd Cerdd Dant	Gruffudd Beech	1af
Unawd Pres	Harri Bale	2il
Unawd Bl 5 a 6	Gruffudd Beech	2il
Alaw Werin	Gruffudd Beech	2il
Celf a Chrefft	Hari Parkin	1af
Celf a Chrefft	Margiad Morris	1af

Llongyfarchiadau i Erin Môn, Efa Gwen a'r Ensemble Offerynnol am gymryd rhan yn ogystal. Pob dymuniad da i chi i gyd, ac i bawb sy'n mynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych. Ewch amdani!

Tatws Bryn

Braf iawn yw bod fferm fel hyn yn bodoli mor agos at ein hysgol, a braint oedd cael mynd draw i gwrdd â'r teulu, er mwyn dysgu'r ffyrdd orau i dyfu cynydu! Sgil bwysig dros ben! Diolch i chi am eich rhoddion o lysiau i'n disgyblion! Edrychwn ymlaen at gael dod i fferm Hafod y Bryn yn fuan unwaith eto.

Cystadleuaeth Garddio Fron Goch

Llongyfarchiadau i'r ysgol ar ennill dau gant o bunnoedd, yn rhoddedig gan Ganolfan Arddio Fron Goch! Diolch o galon! Diolch hefyd i Mrs Paula Owen am drefnu'r cyfan.



Chwaraeon yr Urdd

Bu'r disgyblion yn brysur yn cystadlu mewn gwahanol dwrnamentau pêl droed a gafodd eu trefnu gan Urdd Eryri. Braf iawn ydi cael ailafael a gweld y disgyblion yn chwarae o'i hochr hi fel hyn! Cafwyd hwyl dda arni, a llwyddodd tîm y merched i guro 5 – 0 yn y rownd derfynol! Hwyl oedd pencampwyr y plat!

Llongyfarchiadau i Gruff Beech ar gael ei ddewis i chwarae pêl droed i dîm Gwynedd dan 11oed, a'r tîm hwn oedd pencampwyr Cymru eleni! Gwych!



Taith Gerdded Abergwyngregyn

Cafwyd profiad bendigedig yn cerdded yn ôl i'r ysgol o Abergwyngregyn ar hyd y Carneddi, a dysgu am yr ardal leol, gan ryfeddu at y golygfeydd. Braf oedd gweld y chwarel, a'r ponciau sydd ar ôl i'w gweld, a'r holl olygfeydd godidog.

Sioe Bypedau

Aeth dosbarth Mrs Rona Williams i Theatr Harlequin yn Llandrillo i weld sioe bypedau a chael diwrnod i'r brenin!

Plas Ogwen

Bu disgyblion Blwyddyn 1, sef dosbarthiadau Miss Elen Evans a Mrs Delyth Humphreys, yn canu i drigolion Plas Ogwen yn ddiweddar. Cafwyd amser gwerth chweil, wrth i'r plant bach ganu yr hen ffefrynnau, a braf gweld y trigolion yn ymuno yn yr hwyll! Mae'n brofiad gwefreiddiol i'n plantos



gael cyfarfod â'r genhedlaeth hyn, ac 'rydym yn gweld ar wynebau ein ffrindiau ym Mhlas Ogwen eu bod hwythau wrth eu boddau hefyd! Yn anffodus, oherwydd Covid, nid yw'n bosib mynd i mewn i Blas Ogwen y dyddiau hyn, ond 'roedd canu tu allan, a'r ffenestri ar agor, yn gweithio i'r dim! Diolch yn fawr i Mrs Sharon Williams am y croeso a'r danteithion. Diolch hefyd i gwmni ffilmio am ddod draw i ffilmio'r digwyddiad.

Sioe Bypedau

Diolch yn fawr i Mr Iolo Roberts am wneud theatr bypedau arbennig i'r ysgol. Dyma beth yw crefftwr!

Nain a taid Macsen, Addison a Carwyn

Braint ac anrhydedd oedd croesawu Mr a Mrs Gruff Ellis Williams atom i drafod eu taith i Batagonia. Cafwyd gwledd yn eu cwmni yn dysgu am hanes y Wladfa, a'r Cymry cynnar yn glanio mewn ardal ddiethr ac anial. 'Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn clywed yr hanes i gyd, a daeth popeth yn fyw drwy gyfrwng y lluniau a'r ffilmiau ac ati. Cofion cynnes hefyd at Gwion a'i deulu, ac at bawb yn Ysgol y Cwm! Diolch o galon i chi am ddod i mewn atom i rannu eich hanes.


Ffrindiau o India

Braf iawn oedd croesawu Avantika a Preetee yma atom, sef dwy brifathrawes. Cynhaliwd sesiynau ioga gwerth chweil yn Neuadd yr ysgol o dan eu harweiniad. Mae'r sesiynau hyn yn parhau – drwy gyfrwng technoleg, a'r disgyblion wrth eu boddau.

Clybiau ar ôl Ysgol

Mae nifer o glybiau yn cael eu cynnal ar ôl ysgol, ac yn eu mysg, rygbi a celf a chrefft. Diolch i Ms Rhiannon a Ms Elin am eu cynnal.

CROESAIR



ATEBION CROESAIR EBRILL 2022

AR DRAWS – 1 Garlleg, 5 Ungoes, 8 Bardd, 9 Egni Arall, 10 Cân Yr Eos, 11 Gallu, 12 Marchog, 14 Lefain, 16 Llechi, 18 Odliadur, 20 Trionglau, 21 Chwith, 22 Gogarth, 23 Dybaco
I LAWR – 2 Alabama, 3 Lladd-dy, 4 Gwener Groglith, 5 Un Nos Ola Leuad, 6 Gwallgof, 7 Eraill, 13 Chwilota, 15 Ieuaic, 17 Eirio, 19 Archeb

23 Ar Draws oedd yr unig gliw i achosi trafferth. Yn hytrach na'r ateb cywir 'Dybaco' fel y'i ceir yn yr hen bennill, cynigiwyd 'Dwbacw' a 'Debac'. Ond cafwyd atebion hollol gywir gan y canlynol: Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Gill King,

Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Doris Shaw, Bangor; Dilys W. Griffith, Abergele; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Lowri Evans, Llanllechid; Barbara Jones, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan.

Llongyfarchiadau i Gaynor Elis- Williams, 55 Ffordd Carneddi, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3SE ar ddod yn fuddugol y tro yma. Atebion erbyn **3ydd Mehefin, 2022** fan bellaf i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Gameddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

AR DRAWS

- 2 "Gwledd o ormodedd a mwy" (7)
- 7 Arswyd sy'n hunllef arw wedi dechrau'r boen (4)
- 8 Mae Penybont arni (4)
- 9 Ie, Ler mae ei ffrindiau'n ei galw (5)
- 10 Swnio fel un dwyieithog yn ymgiprys i adael y nyth (6)
- 11 Mae sawl un gan Aneurin, Betsi a Hywel (6)
- 12 Ond taclus yw'r marc ar glust y ddafad (3)
- 14 Beth wna'r "plentyn bach" wrth gyfarch "Iesu tirion" (5)
- 16 Mae o'n orffenedig ar y Lôn Goed meddai RWP (5)
- 18 O'i dynnu, da rhoi pris isel arno. Mi af yn ôl i'w brynu (3)
- 21 Un o ganeuon gorau Edward H. Mae'n ymddangos yn y nos (6)
- 23 Y 'blewyn coch' ei hun (6)
- 24 Tywydd creulon i'r oen newydd anedig (5)
- 25 Awel groes cyn gwneud yn fawr o'r cyfle (4)
- 26 Dihirin (4)
- 27 Nos Lun pan mae hi'n fore Mawrth (7)

I LAWR

- 1 Swnio fel Gobaith Cymru yn fonheddig yn haul Sbaen (7)
- 2 Yn yr ardd neu'r afon (5)
- 3 Bod yn effro i ganu'r piano'n dda (6)
- 4 O'r dechrau un (6)
- 5 Rhoi tro dano i'w chwalu'n dipiau (7)
- 6 Ymholiad cyfreithiol (5)
- 13 Noson Caradog Prichard (3)
- 15 "Oen - - - - - , pen yn gyntaf", medd bardd am gyflwr yr un egwan a enir (7)
- 17 Rhoi pig i mewn yn ddi-wahoddiad (7)
- 18 Ychwaneg i fod yn well na phawb arall (6)
- 19 Heliwr eog yr Ogwen (6)
- 20 Estynnwyd hwy yn elusennol dros y môr yn 1985 (5)
- 22 Cyhuddiad di-sail, ' - - - - - gam' (3,2)

STEPHEN JONES

TREFNWR

ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON